



Home Office Y Swyddfa Gartref

**Hysbysiadau Amddiffyn Rhag
Cam-drin Domestig a Gorchmynion
Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig
Canllawiau statudol i'r heddlu**

27 Tachwedd 2024



Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwrch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [Domestic abuse protection orders and protection notices - GOV.UK](#)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at: dapndapo.pilot@homeoffice.gov.uk

1 Statws a phwmpas y canllaw hwn	5
1.1 Cyhoeddiad y c anllaw statudol	5
1.2 Dyletswydd statudol	6
1.3 Nodau a phwmpas y canllaw statudol	6
1.4 Cefndir yr Hysbysiad Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN) a'r Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)	7
1.5 Rhaglen beilot yr Hysbysiad Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN) a'r Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)	9
2 Rhannu gwybodaeth amlasiantaeth a chynllunio diogelwch	10
Plant	12
3 Hysbysiadau Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPNau)	14
3.1 Beth yw Rhybudd Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN)?	14
3.2 Pryd ddylid ystyried Rhybudd Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN)	14
3.3 Awdurdodi Rhybudd Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN)	17
3.4 Cyflwyno Hysbysiad Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN) a Rhybudd o Wrandawriad	18
3.5 Torri Rhybudd Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN)	19
3.6 Cais am Orchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO) yn dilyn DAPN	20
4 Cais annibynnol gan yr heddlu am DAPO	22
4.1 Amodau ar gyfer gwneud Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)	22
4.2 Ystyriaethau ynghylch y tramgwyddwr wrth wneud cais Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)	25
4.3 Gwneud Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO) heb rybudd	25
5 Gorchmynion Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPOau) a wnaed yn ystod achos llys troseddol parhaus	27
6 Gwaharddiadau a gofynion cadarnhaol	28
6.1 Darpariaethau allweddol	28
6.2 Gwaharddiadau	29
6.3 Gofynion cadarnhaol a'r person cyfrifol	31
6.4 Gwneud cais am ofyniad cadarnhaol	31

6.5	Monitro parhaus gan y person cyfrifol am ofyniad cadarnhaol	33
7	Gofynion monitro electronig	34
8	Gofynion hysbysu	37
8.1	Gofynion hysbysu	37
8.2	Troseddau'n ymwneud â hysbysu	39
9	Amrywio neu ryddhau Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)	40
10.1	Y person cyfrifol	44
10.2	Ceisiadau am Orchmynion Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO) dan arweiniad dioddefwyr/trydydd parti	44
10.3	Hysbysiadau gan y teulu a'r llys sifil	44
10.4	Rheoli Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig yn barhaus (DAPO)	45
10.5	Cynllunio ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig yn dod i ben (DAPO)	46
11	Torri Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)	47
11.1	Torri Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)	47
11.2	Torri Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig a arweinir gan ddioddefwyr neu drydydd parti (DAPO)	48
11.3	Delio â thorri rheolau fel dirmyg sifil llys	48
11.4	Toriad yn digwydd y tu allan i Gymru a Lloegr	49
12	Apeliadau	50
Atodiad A:	Ffyrdd eraill o gael Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)	52
A1	Gorchmynion Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPOau) a wnaed ar gais	52
A2	DAPOau wedi'u gwneud o wirfodd y llys	53
Atodiad B:	Map Proses	55
Atodiad C:	Amodau Mechnïaeth	57
Atodiad D:	Cefnogaeth ar gael i ddioddefwyr	58
Atodiad E:	Geirfa termau allweddol	62

1 Statws a phwrrpas y canllaw hwn

1.1 Cyhoeddiad y canllaw statudol

- 1.1.1 Cyhoeddwyd drafft o'r canllawiau statudol am y tro cyntaf ym mis Medi 2020 ar gyfer ymgynghoriad, yn ystod taith Deddf Cam-drin Domestig 2021 drwy'r Senedd, a chyn datblygiad peilot yr Hysbysiad Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN) a'r Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO).
- 1.1.2 Mae'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r canllawiau statudol (Tachwedd 2024) yn adlewyrchu'r datblygiadau polisi ers i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol, a'r ymgysylltiad helaeth a gafwyd gyda phartneriaid gweithredol a rhanddeiliaid ar draws y sector cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched. Diolchwn i Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, yr heddlu, Gwasanaeth Llysoedd a Thriwiwnlysoedd Ei Fawrhydi, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, a sefydliadau arbenigol ar draws y sector am eu hymgysylltiad a'u mewnbwn cynhwysfawr.
- 1.1.3 Mae'r canllawiau statudol hyn yn canolbwyntio ar y prosesau ar gyfer ceisiadau dan arweiniad yr heddlu ar gyfer DAPN a DAPO, ac felly nid yw'n cynnwys pob llwybr ymgeisio, fel ceisiadau a wneir gan ddioddefwyr a thrydydd parti (gweler Atodiad A, am restr o'r holl lwybrau ymgeisio). Bydd canllawiau ar wahân, anstatudol yn cael eu darparu ar gyfer llwybrau cais eraill. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi cynhyrchu canllawiau i ddioddefwyr¹.
- 1.1.4 Byddwch cystal â nodi bod yr holl ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ac y cyfeirir ati drwy gydol y canllawiau hyn at [Ddeddf Cam-drin Domestig 2021](#) ("y Ddeddf") oni nodir fel arall.
- 1.1.5 Mae'r canllawiau statudol hyn yn cael eu cyhoeddi at ddiben treialu'r DAPN a'r DAPO. Bydd y darpariaethau perthnasol a fanylir yn [Rhan 3](#) o'r Ddeddf yn dechrau (yn benodol adrannau 22 i 56) ar ddyddiad cychwyn y rhaglen beilot. Gellir dod o hyd i'r pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer rhaglen beilot yn [Adran 90\(7-9\)](#) o'r Ddeddf sy'n gwneud y ddarpariaeth ganlynol:
- a) Gall rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth wahanol ar gyfer dibenion gwahanol neu mewn perthynas â gwahanol feysydd ([Adran 90\(7\)](#)).
 - b) Bydd rheoliadau sy'n dod ag unrhyw ddarpariaeth yn [Rhan 3](#) neu [Adran 76](#) i rym at ddiben neu ardal benodol yn unig ddarparu bod y ddarpariaeth neu'r adran honno mewn grym am "gyfnod penodedig" yn unig ([Adran 90\(8\)\(a\)](#)) a gwneud darpariaeth drosiannol neu arbed mewn perthynas â'r adran honno sy'n peidio â bod mewn grym ar ddiwedd y cyfnod penodedig ([Adran 90\(8\)\(b\)](#)).

¹ www.gov.uk/guidance/domestic-abuse-protection-notices-dapns-and-domestic-abuse-protection-orders-dapos

1.2 Dyletswydd statudol

- 1.2.1 Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan [Adran 50](#) o'r Ddeddf. Mae'r heddlu o dan ddyletswydd statudol i roi sylw i'r canllawiau hyn wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â DAPNau a DAPOau. Mae'r canllawiau hyn yn gymwys ar gyfer heddluoedd yng Nghymru a Lloegr a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) sy'n ymgymryd â'r rhaglen beilot. Ar ei gyflwyno'n genedlaethol, bydd y canllawiau hyn hefyd yn gymwys ar gyfer Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MDP) yn unol â [Rhan 3](#) o'r Ddeddf sy'n darparu bod Prif Gwnstabl y MDP wedi'i awdurdodi i ymgeisio am DAPN a DAPO.
- 1.2.2 Gall yr wybodaeth yn y canllawiau hyn fod yn berthnasol i gynorthwyo gwaith asiantaethau cyfiawnder troseddol a chyrrff statudol eraill, yn ogystal â sefydliadau anllywodraethol a gwirfoddol a allai fod yn gysylltiedig â'r dioddefwr neu bobl eraill a gafodd eu heffeithio gan gam-drin domestig.

1.3 Nodau a phwrrpas y canllaw statudol

- 1.3.1 Nod y canllaw hwn yw rhoi gwybodaeth i heddluoedd sy'n cynnal rhaglen beilot ynglŷn â'r defnydd effeithiol o DAPNau a DAPOau, gan gynnwys pryd y dylai'r heddlu ystyried rhoi DAPN, sut i wneud cais am DAPO annibynnol a gwybodaeth ynglŷn â sut i weithio gydag asiantaethau a sefydliadau eraill i wneud cais am DAPO a phan fydd DAPO ar waith.
- 1.3.2 Nod y canllaw hwn yw rhoi gwybodaeth i heddluoedd nad sy'n cynnal rhaglen beilot am y defnydd o DAPNau a DAPOau, gan gynnwys ymdrin yn effeithiol â thorri hysbysiad neu orchymyn a gwybodaeth ynglŷn â sut i weithio gydag asiantaethau a sefydliadau eraill lle mae DAPN neu DAPO ar waith. Bydd gwybodaeth gefnogol ychwanegol ar gyfer heddluoedd nad sy'n cynnal rhaglen beilot yn cael ei roi cyn ei lansio.
- 1.3.3 [Mae'r fframwaith Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig](#) sy'n cyd-fynd â Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn rhoi arweiniad a chymorth i weithwyr proffesiynol rheng flaen a sefydliadau eraill i gyfleu safonau a hyrwyddo arfer gorau, a allai gynorthwyo pobl broffesiynol yn eu gwaith mewn perthynas â DAPNau a DAPOau. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn ag effaith cam-drin domestig mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol). Mae rhagor o wybodaeth am y gwahanol brofiadau, anghenion ac ystyriaethau perthynol, gan gynnwys nodweddion sefyllfaol, i'w gweld ym [Mhennod 5](#) o Ganllaw Statudol Deddf Cam-drin Domestig 2021.
- 1.3.4 Wrth ymarfer eu swyddogaethau mewn perthynas â DAPN a DAPO, mae'n ofynnol i brif swyddog yr heddlu, prif gwnstabl y BTP a phrif gwnstabl y MDP (yr olaf ar ôl cyflwyniad cenedlaethol disgwyliedig yn unig ac nid ar gyfer y rhaglen beilot), yn unol ag [Adran 149](#) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a hyrwyddo cydraddoldeb cyfle. Byddwch cystal â nodi, mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn berthnasol i unrhyw swyddog heddlu sy'n ymarfer swyddogaethau fel rhan o'r broses DAPN neu DAPO.

1.3.5 Mae hefyd yn ofynnol i brif swyddogion yr heddlu a phrif gwnstabl y BTP a phrif gwnstabl yr MDP yn unol [ag Adran 6](#) Deddf Hawliau Dynol 1998 gydymffurfio â'r hawliau confensiwn a osodir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf honno. Dylai'r heddlu hefyd ystyried ymgysylltu â'r sefydliadau a restrir yn Atodiad D fel rhan o'r broses ymgeisio.

1.3.6 Er mwyn lliniaru unrhyw gamwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol ar unigolion ag anableddau o ran y canllawiau statudol ysgrifenedig hyn ac unrhyw gamwahaniaethu cysylltiedig ar DAPN neu DAPO, bydd y ddogfen ganllaw hon ar gael trwy amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys fformat HTML (heb dablau, blychau a graffeg), Cymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

1.3.7 Gellir dod o hyd i eirfa acronymau a ddefnyddir drwy gydol y canllaw hwn yn Atodiad E.

1.4 Cefndir yr Hysbysiad Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN) a'r Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)

1.4.1 Cafodd y [Ddeddf Cam-drin Domestig 2021](#) Gydsyniad Brenhinol ar Ebrill 29, 2021. [Mae Rhan 3](#) o'r Ddeddf yn cynnal darpariaeth ar gyfer DAPNau a DAPOau sifil newydd.

1.4.2 Nod y llywodraeth wrth greu DAPNau a DAPOau yw dwyn elfennau cryfaf y drefn gorchymyn amddiffynol bresennol at ei gilydd mewn un gorchymyn cynhwysfawr, hyblyg, i roi amddiffyniad tymor hirach rhag cam-drin domestig i'r dioddefwr.

1.4.3 Y bwriad yw y bydd DAPNau a DAPOau yn disodli'r Hysbysiad Diogelu Rhag Trais Domestig (DVPN) a'r Gorchymyn (DVPO) presennol pan gaiff ei weithredu'n genedlaethol. Fodd bynnag, bydd DVPNau a DVPOau yn parhau i fod ar gael trwy gydol rhaglen beilot DAPN a DAPO a dim ond ar ôl cyflwyno'r DAPN a'r DAPO yn genedlaethol y caiff y DAPN a'r DAPO eu diddymu. Bydd yr holl orchmynion amddiffynol eraill, gan gynnwys Gorchmynion Amddiffyn Rhag Stelcio, Gorchmynion Peidio ag Ymyrryd, Gorchmynion Meddiannaeth a Gorchmynion Atal, yn parhau i fod ar gael.

1.4.4 Amcanion y DAPN a'r DAPO yw:

- a) Amddiffyn dioddefwyr rhag cam-drin domestig a lleihau ail-erlid ac aildroseddu drwy ddarparu ystod ehangach a mwy hyblyg o waharddiadau ac amodau yn erbyn y tramgwyddwr.
- b) Symleiddio tirwedd bresennol hysbysiadau a gorchmynion amddiffynol sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig ar gyfer dioddefwyr a phartneriaid gweithredol.
- c) Sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig yn teimlo'n hyderus ac yn ddiogel wrth wneud cais am DAPO, a bod ganddyn nhw hyder yn y mesurau amddiffynol y gall DAPO eu cynnig.

1.4.5 Gellir defnyddio'r DAPN i roi amddiffyniad ar unwaith rhag cam-drin domestig cyfredol a lle bod yna botensial i weld cynnydd mewn cam-drin domestig. Gellir dod o hyd i restr sydd heb fod yn gyflawn o enghreifftiau sy'n dangos pryd gall yr heddlu ystyried rhoi DAPN ar waith yn adran 3.2.1 o'r ddogfen ganllaw hon.

- 1.4.6 Gellir defnyddio'r DAPO i roi amddiffyniad tymor hirach. Gellir teilwra hyd y gorchymyn a'r gofynion a roddir ar y tramgwyddwr i ddiwallu anghenion y dioddefwr a mynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol cyflawnwr y troseddau hyn.
- 1.4.7 Mae DAPOau yn wahanol i'r gorchymynion amddiffynol presennol yn y ffyrdd canlynol:
- a) **Cwmpas ehangach:** mae'r DAPO yn cynnig amddiffyniad rhag pob math o gam-drin domestig fel y caiff ei ddiffinio yn [Adran 1](#) o'r Ddeddf. Mae hyn yn mynd tu hwnt i drais corfforol neu fygythiad trais corfforol a gall gynnwys cam-drin rhywiol mewn lleoliad domestig, ymddygiad treisgar neu fygythiol, ymddygiad rheolaethol neu orfodaeth, cam-drin economaidd, a cham-drin seicolegol neu emosiynol. Does dim gwahaniaeth os ddigwyddodd yr ymddygiad yn Lloegr a Chymru neu unrhyw le arall.
 - b) **Hyd:** dim isafswm neu uchafswm hyd, gan ganiatáu i amddiffyniad gael ei deilwra ar gyfer achosion unigol.
 - c) **Mae torri DAPO yn drosedd:** mae methu â chydymffurfio ag unrhyw ofynion DAPO yn drosedd, gan gario cosb uchaf o hyd at bum mlynedd o garchar, dirwy, neu'r ddau.
 - d) **Mae ar gael ym mhob awdurdodaeth llys:** gall yr heddlu wneud cais am DAPO i lys ynadon. Gall dioddefwyr a thrydydd partïon (e.e. awdurdod lleol neu wasanaeth cam-drin domestig) wneud cais i'r llys teulu. Mewn achosion sydd eisoes yn bodoli, sy'n ymwneud â'r dioddefwr a'r tramgwyddwr, gall y dioddefwr wneud cais i'r llys teulu neu sirol. Gall y llys troseddol, teulu a sirol hefyd wneud DAPO o'u cynnig eu hunain yn ystod achosion cyfredol.
 - e) **Gofynion cadarnhaol a gwaharddiadau:** gall y DAPO gynnwys gwaharddiadau fel parthau gwahardd, gan wahardd y tramgwyddwr rhag mynd mewn i rai ardaloedd arbennig. Gall y DAPO hefyd osod gofynion cadarnhaol sy'n ei gwneud yn ofynnol i dramgwyddwr gymryd camau, fel mynychu rhaglen yn orfodol (e.e., rhaglen newid ymddygiad tramgwyddwr).
 - f) **Monitro electronig:** gellir ei orfodi er mwyn cefnogi monitro cydymffurfiaeth unigolyn â gofynion eraill y gorchymyn (e.e., i fonitro bod y tramgwyddwr yn cydymffurfio â pharth gwahardd o amgylch tŷ'r dioddefwr).
 - g) **Gofynion hysbysu gorfodol:** bydd DAPO yn gosod gofynion hysbysu gorfodol fel bod yn rhaid i'r tramgwyddwr hysbysu'r heddlu o'i enw (gan gynnwys unrhyw enwau eraill) a chyfeiriad cartref o fewn 3 diwrnod i wneud y gorchymyn ac am unrhyw newidiadau ar ôl hynny.
 - h) **Awdurdodi:** Gall uwch swyddog heddlu (h.y. arolygydd neu uwch) gyhoeddi DAPN ac awdurdodi cais DAPO ([Adran 22](#)) a ([Adran 28\(4\)](#)) o'r Ddeddf.

1.4.8 Ni ddylai'r heddlu ddibynnu ar DAPOau fel mesur a weithredir yn lle gweithredu ehangach gan yr heddlu ar gam-drin domestig. Dylai cymryd camau yn erbyn tramgwyddwyr, fel ymchwiliadau a chyhuddiadau, fod yn flaenoriaeth.

1.5 Rhaglen beilot yr Hysbysiad Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN) a'r Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)

1.5.1 Bydd y DAPN a'r DAPO yn cael eu treialu a'u gwerthuso am flwyddyn ddisgwyliedig mewn heddluoedd a llysoedd dethol yng Nghymru a Lloegr.

1.5.2 Mae Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn rhoi pwerau i BTP wneud cais uniongyrchol i'r llys ynadon am orchymyn amddiffynnol am y tro cyntaf ([Adran 28\(4\)\(b\)\(iii\)](#)). Mae BTP yn bennaf yn gyfrifol am y rhwydwaith rheilffyrdd ar hyd Lloegr, Cymru a'r Alban, gan gynnwys traciau rheilffordd, gorsafoedd ac unrhyw dir arall mewn perthynas â rheilffordd at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â rheilffordd ([Adran 31, Deddf Rheilffyrdd a Diogelwch Trafnidiaeth, 2003](#)). Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau fel Rheilffordd Tanddaearol Llundain (y London Underground) a Rheilffordd Ardal Dociau Llundain (London Docklands). Yn ystod y rhaglen beilot, caiff prosesau lle bydd BTP yn ymgysylltu â heddluoedd nad sy'n cymryd rhan ynddi gael eu rheoli'n lleol.

1.5.3 Bydd rhaglen beilot y DAPN a'r DAPO yn cael eu gwerthuso gan bartner gwerthuso allanol trwy gydol y rhaglen. Bydd y gwerthuswr yn ceisio cynnal gwerthusiad proses, effaith a Gwerth am Arian (VfM) o'r DAPN a'r DAPO. Bydd y gwerthusiad yn profi prosesau a gweithdrefnau gweithredol yr hysbysiad a'r gorchymyn newydd ac yn asesu p'un a yw'r pwerau newydd hyn yn bodloni'r amcanion ar gyfer y DAPN a'r DAPO a restrir yn adran 1.4.4 o'r ddogfen ganllaw hon.

1.5.4 Bydd gwerthusiad y broses yn canolbwyntio ar p'un a yw'r DAPN a'r DAPO yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd, a ph'un a yw'r dyluniad yn ymddangos fel pe bai'n gweithio'n ymarferol, a pha bethau sy'n gweithio'n dda a pham. Mae gallu'r gwerthuswr i gynnal gwerthusiad effaith yn dibynnu ar gael digon o DAPOau wedi'u rhoi o fewn yr amserlen benodol. Os bydd y nifer o DAPOau yn caniatáu, bydd y gwerthusiad effaith yn ceisio deall p'un a yw DAPOau yn lleihau tramgwyddiadau cam-drin domestig yn y dyfodol o'i gymharu â grŵp cymharol tebyg sydd heb dderbyn DAPO. Yn yr un modd, os bydd y data'n caniatáu, bydd y gwerthuswr hefyd yn cynnal asesiad VfM.

1.5.5 Caiff y canllawiau hyn eu hadolygu yn dilyn canfyddiadau a'r hyn a ddysgir o'r peilot a'u diweddarau yn ôl yr angen cyn cyflwyno'r DAPN a'r DAPO yn genedlaethol fel sy'n ddisgwyliedig ar draws Lloegr a Chymru.

2 Rhannu gwybodaeth amlasiantaeth a chynllunio diogelwch

2.1 Mae'r defnydd effeithiol o DAPNau a DAPOau yn galw am waith amlasiantaeth rhagweithiol ar bob cam. Disgwylir i'r heddlu gadw asiantaethau partner yn rhan o achosion DAPO gweithredol a'u hysbysu o unrhyw ddiweddariadau i achosion DAPO byw a gweithio'n agos gyda fforymau amlasiantaeth sefydledig lle mae hynny'n briodol – er enghraifft drwy Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC), Tasgio a Chydgysylltu Amlasiantaethol (MATAC) neu Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA).

2.2 Cyn gynted ag y bydd yn ymarferol, disgwylir i'r heddlu:

Rhoi'r wybodaeth berthnasol ar y PNC (Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu)	✓
Rhoi gwybod i'r dioddefwr a chynnig atgyfeirio at wasanaethau arbenigol	✓
Adolygu diogelwch y dioddefwr a diweddaru cynllunio diogelwch yn ôl yr angen	✓
Rhoi gwybod i asiantaethau partner perthnasol drwy fforymau amlasiantaethol sefydledig	✓
Lle gall plentyn gael ei effeithio gan y gamdriniaeth, mae Adran 3 Deddf DA yn ei gydnabod yn gyfreithiol fel dioddefwyr yn ei hawl ei hun. Felly, ystyriwch hysbysiad Operation Encompass (OE) ² ac atgyfeiriad gofal cymdeithasol os oes angen eu hamddiffyn ar unwaith a/neu fod yna gyhuddiad troseddol neu ymchwiliad yn ymwneud â DA, neu hysbysiad OE os nad oes unrhyw gyhuddiad troseddol neu ymchwiliad	✓
Lle mae'r dioddefwr a'r tramgwyddwr yn byw mewn gwahanol ardaloedd heddlu, dylid hysbysu unrhyw heddlu perthnasol arall.	✓

2.3 Y camau lle mae gofyn am gamau gweithredu gan yr heddlu mewn perthynas â rhannu gwybodaeth amlasiantaeth a chynllunio diogelwch yw:

² [Cartref: Operation Encompass](#)

- a) Pan roddir DAPN;
- b) Pan fydd DAPN yn cael ei dorri;
- c) Pan fydd DAPO yn cael ei wneud, neu pan na fydd yn cael ei wneud, ar gais gan yr heddlu (naill ai ar ôl i DAPN gael ei roi neu fel cais ar ben ei hun);
- d) Pan wneir DAPO ar gais gan y dioddefwr neu gan drydydd parti;
- e) Pan fydd DAPO yn cael ei amrywio neu ei weithredu, neu os nad yw'n cael ei amrywio neu ei weithredu, ar gais gan yr heddlu;
- f) Pan fydd DAPO yn cael ei dorri;
- g) Pan fydd apêl yn cael ei gyflwyno yn erbyn unrhyw benderfyniad gan y llys sy'n ymwneud â phenderfyniad DAPO;
- h) Cyn dyddiad dod i ben DAPO.

2.4 Os na fydd y llys yn gwneud y DAPO neu'r amrywiad, neu os yw'r gofynion a osodir gan y llys yn wahanol i'r rhai y gofynnwyd amdanynt gan yr heddlu yn eu cais, fe all fod angen diwygio cynlluniau diogelwch i sicrhau bod y dioddefwr yn parhau i gael ei amddiffyn.³

2.5 Wrth ymgysylltu â'r dioddefwr, fe ddylai'r heddlu:

- a) Egluro'r gwaharddiadau a/neu'r gofynion a osodir gan y DAPN neu'r DAPO i'r dioddefwr a sicrhau bod gan y dioddefwr gopi o'r gorchymyn. Efallai bydd yr heddlu eisiau gweithio drwy wasanaeth cymorth er mwyn rhannu'r wybodaeth hon os byddan nhw'n ystyried ei fod yn addas;
- b) Rhoi gwybod i'r dioddefwr pa gamau y dylai gymryd os bydd unrhyw un o'r gwaharddiadau neu'r gofynion yn cael eu torri;
- c) Rhoi gwybodaeth i'r dioddefwr am y DAPN a'r DAPO.
- d) Rhoi gwybod i'r dioddefwr am wasanaethau cymorth cam-drin domestig arbenigol lleol fel Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) neu wasanaethau eraill gan ac ar gyfer y gymuned;
- e) Ystyried, mewn achos o dorri, na fydd y dioddefwr o reidrwydd yn ymwybodol o lawn maint y toriad na'r ymddygiad oedd yn ei ymgorffori ac y gallai cael gwybod am doriad arwain at ail-drawmateiddio. Felly, rhaid ymdrin ag unrhyw hysbysiad i'r dioddefwr bod toriad wedi digwydd yn deimladwy, gyda chefnogaeth

³ Os yw'r heddlu'n anghytuno â phenderfyniad y llys i beidio â gwneud DAPO neu ynglŷn â'r gofynion a osodir gan y DAPO, fe allant apelio yn ei erbyn. Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'r amgylchiadau lle gall yr heddlu apelio mewn perthynas â DAPO yn adran 12.

Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) neu wasanaethau eraill lle bydd angen.

Cefnogaeth i ddioddefwyr

- IDVAau yn aml yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer y dioddefwr ac maen nhw'n gweithio er mwyn asesu lefel y risg, trafod opsiynau a datblygu cynlluniau diogelwch ochr yn ochr â'r heddlu.
- Gall cefnogaeth gan IDVA neu gymorth arbenigol arall wella canlyniadau'n ymwneud â diogelwch, adferiad ac ymgysylltiad â'r broses cyfiawnder troseddol.
- Mae hi'n bwysig felly bod dioddefwyr yn cael gwybodaeth am wasanaethau cymorth arbenigol lleol ac IDVAau. Dylai'r heddlu hefyd ystyried gwneud yr atgyfeiriad i wasanaethau cymorth perthnasol ar ran dioddefwr. Gellir dod o hyd i restr o sefydliadau arbenigol yn Atodiad D.
- Gall IDVAau neu wasanaethau cymorth cam-drin domestig lleol eraill hefyd helpu arwain dioddefwr at gefnogaeth ar faterion gan gynnwys tai, iechyd meddwl neu anghenion cwnsela. Efallai bydd gan y dioddefwr anghenion iechyd penodol sy'n gofyn am ddiagnosis a chefnogaeth arbenigol fel anaf trawmatig i'r ymennydd, a mathau eraill o anaf i'r ymennydd a gafwyd, gan gynnwys cyfergyd. Gall gwasanaethau cymorth cam-drin domestig arbenigol helpu i atgyfeirio'r dioddefwr at wasanaethau perthnasol yn ôl yr angen.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

- 2.6 Am arweiniad pellach ar weithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth, dylai'r heddlu gyfeirio at ganllawiau'r Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) y Coleg Plismona ar gam-drin domestig⁴.

Plant

- 2.7 Dylai diogelwch parhaus y dioddefwr ac unrhyw blant fod o'r pwys mwyaf i'r heddlu. Mae ymholiad diogel gyda'r dioddefwr a'r defnydd o asesiad risg cam-drin domestig neu offeryn sgrinio arbenigol addas mewn ymgynghoriad ag asiantaethau partner yn hanfodol i ddiogelu diogelwch dioddefwyr a lleihau'r risg o niwed pellach gan y tramgwyddwr.
- 2.8 Ni ddylai ymarferwyr gymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn trosglwyddo gwybodaeth maen nhw'n credu y gallai fod yn allweddol er mwyn cadw plentyn yn ddiogel. Os oes gan ymarferydd bryderon am les neu ddiogelwch plentyn, yna dylai rannu'r wybodaeth gydag adran gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol a/neu'r heddlu. Dylai pob ymarferydd fod yn arbennig o effro i bwysigrwydd rhannu gwybodaeth

⁴ [Gweithio mewn partneriaeth ac ymatebion/mecanweithiau amlasiantaethol | Coleg Plismona](#)

pan fydd plentyn yn symud o un awdurdod lleol i'r llall, oherwydd y risg y gellid colli gwybodaeth sy'n berthnasol i gadw plentyn yn ddiogel.

- 2.9 O dan [Adran 47](#) o Ddeddf Plant 1989, lle mae plentyn yn destun gorchymyn amddiffyn brys neu o dan warchodaeth yr heddlu neu os oes achos rhesymol dros amau bod plentyn sy'n byw, neu a gafodd ei ddarganfod, yn ei ardal yn dioddef neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol, rhaid i'r awdurdod lleol gynnal neu beri i ymholiadau gael eu gwneud er mwyn penderfynu os oes rhaid cymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn.
- 2.10 Lle mae risg i fywyd plentyn neu debygolrwydd o niwed difrifol ar unwaith, p'un ai o'r tu mewn neu o du allan i'r cartref, dylai'r awdurdod lleol, yr heddlu (gan gynnwys BTP a MDP) neu'r NSPCC ddefnyddio eu pwerau amddiffyn plant statudol i weithredu ar unwaith er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn, fel a osodir yn [Adran 46](#) Deddf Plant 1989.

3 Hysbysiadau Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPNau)

3.1 Beth yw Rhybudd Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN)?

3.1.1 Hysbysiad a gyhoeddir gan yr heddlu yw DAPN a'i fwriad yw cynnig amddiffyniad ar unwaith rhag cam-drin domestig. Gall ddarparu amddiffyniad rhag pob math o gam-drin domestig fel y caiff ei ddiffinio yn [Adran 1](#) o'r Ddeddf. Mae'n rhaid i DAPN gael ei awdurdodi gan "uwch swyddog heddlu" sy'n gwnstabl ar lefel **rheng arolygydd o leiaf**. Rhaid i gais am DAPO gael ei glywed o fewn 48 awr ar ôl i DAPN gael ei gyhoeddi (gan anwybyddu dydd Sul ac unrhyw Wyliau Banc), ond bydd y DAPN yn parhau i fod mewn grym hyd nes bod y cais hwnnw wedi'i benderfynu neu ei dynnu'n ôl.

3.1.2 Mae DAPN yn weithredol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig ([Adran 22\(7\)](#)).

3.2 Pryd ddylid ystyried Rhybudd Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN)

3.2.1 Gellir ystyried DAPN pan:

Fod gan uwch swyddog yr heddlu sail resymol dros gredu bod y tramgwyddwr wedi bod yn cam-drin person 16 oed neu drosodd sydd â chyswllt personol gyda nhw;	✓
Fod gan yr uwch swyddog sail resymol dros gredu bod angen DAPN i ddiogelu unigolyn 16 oed neu hŷn rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig a gyflawnir gan y tramgwyddwr;	✓
Fod y tramgwyddwr yn 18 oed neu'n hŷn;	✓
Fod y dioddefwr a'r tramgwyddwr wedi'u "cysylltu'n bersonol";	✓
Ar gyfer y rhaglen beilot, bydd rhaid i'r tramgwyddwr breswyllo yn ardal yr heddlu lle caiff y rhaglen beilot ei chynnal er mwyn i DAPN gael ei gyhoeddi. Gall y dioddefwr breswyllo yn unrhyw le, gan gynnwys y tu allan i ardal y rhaglen beilot.	✓

- 3.2.2** Rhaid rhoi ystyriaeth bob amser i nodi ac ymchwilio i droseddau sylweddol. Dylid hefyd ystyried digwyddiadau a ddangosir fel rhai cam-drin domestig a galwadau gan yr heddlu wrth ystyried gwneud cais am DAPN.
- 3.2.3** Gellir gwneud DAPN er mwyn atal tramgwyddwr rhag cam-drin dioddefwyr sy'n 16 oed neu'n hŷn.
- 3.2.4** Gellir defnyddio DAPN i osod gwaharddiadau ar dramgwyddwr ([Adran 23](#)). Mater i'r heddlu fydd ystyried pa fesurau sy'n angenrheidiol ac yn gymesur, fel:
- a) Ni chaiff y tramgwyddwr gysylltu â'r dioddefwr (sydd hefyd yn cynnwys trwy ddulliau technolegol);
 - b) Ni chaiff y tramgwyddwr ddod o fewn pellter penodol i'r annedd mae'r dioddefwr yn byw ynddo;
- Lle bydd y dioddefwr a'r tramgwyddwr yn byw yn yr un annedd, gall y DAPN hefyd gynnwys:
- a) Bod y tramgwyddwr wedi'i wahardd rhag gyrru'r dioddefwr allan neu ei wahardd o'r annedd honno;
 - b) Bod y tramgwyddwr wedi'i wahardd rhag mynd i mewn i'r annedd honno;
 - c) Ei fod yn ofynnol i'r tramgwyddwr adael yr annedd honno.
- 3.2.5** Os oes angen amddiffyniad ar unwaith o dan DAPN, dylid ei roi ar waith, beth bynnag yw trefniadau byw neu amodau mechnïaeth y tramgwyddwr a'r dioddefwr.
- 3.2.6** Disgwylir i'r heddlu gynnwys eu hargymhellion ar gyfer darpariaethau'r hysbysiad yn eu hawdurdodiad ar gyfer DAPN. Am fwy o wybodaeth am waharddiadau, gweler adran 6.2 o'r ddogfen ganllaw hon.
- 3.2.7** Disgwylir i'r heddlu ystyried pob mesur amddiffynnol, gan ddewis y rhai mwyaf priodol gan roi sylw dyledus i unrhyw nodweddion gwarchodedig y dioddefwr. Dylai'r heddlu hefyd ystyried unrhyw nodweddion gwarchodedig y tramgwyddwr drwy gydol unrhyw achosion, ymyriadau neu ofynion sy'n gysylltiedig â DAPN neu DAPO.
- 3.2.8** Mewn achosion lle mae tystiolaeth o ymddygiad stelcio, dylid ystyried barn y dioddefwr ynghylch a fyddai [Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio](#) yn fwy priodol wrth gydbwysu'r amddiffyniadau sydd ar gael o dan DAPN. Mae'r Coleg Plismona yn cynghori swyddogion i ystyried yr acronym FOUR wrth nodi ymddygiad stelcio: yn sefydlog, yn obsesiynol, yn ddi-groeso ac yn cael ei ailadrodd (Fixated, Obsessive, Unwanted and Repeated)⁵.

⁵ Cyngor y Coleg Plismona i ymchwilyr ar stelcio neu aflonyddu - [Stelcio neu aflonyddu: Cyngor i ymchwilyr ar ymchwiliad effeithiol \(college.police.uk\)](#)

- 3.2.9 Mewn achosion lle mae tystiolaeth o gam-drin yn seiliedig ar yr hyn a elwir yn 'anrhydedd', dylid ystyried a allai [Gorchymyn Amddiffyn Rhag Priodas dan Orfod](#) neu [Orchymyn Diogelu Rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod](#) fod yn fwy priodol o ran yr amddiffyniadau sydd ar gael o dan DAPN. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â phriodas dan Orfod a FGM i'w gweld yn y [canllawiau ac arferion statudol amlasiantaethol ar briodas dan Orfod](#) a'r [canllawiau statudol amlasiantaethol ar FGM](#).
- 3.2.10 Dylid meddwl hefyd a yw cam-drin yn cael ei gyflawni gan fwy nag un unigolyn, er enghraifft, aelodau teulu'r camdriniwr, dynameg ehangach y teulu y tu hwnt i gam-drin partneriaid agos, gan gynnwys cydnabod trin posib gan aelodau'r teulu i wadu bod niwed yn digwydd neu gamgynrychioli dynameg teuluol. Does dim gofyniad yn y Ddeddf bod angen i'r dioddefwr a'r tramgwyddwr gyd-fyw i gael eu cysylltu'n bersonol.
- 3.2.11 Gall y sawl sy'n cyflawni cam-drin domestig ddefnyddio statws mewnfudo dioddefwyr fel ffordd o osod rheolaeth ar y dioddefwr. Er enghraifft, drwy fygwth dweud wrth yr heddlu neu'r Swyddfa Gartref neu drwy ffugio neu gamreoli statws mewnfudo dioddefwyr. Wrth ddelio â dioddefwyr â statws mewnfudo ansicr neu aneglur, dylai'r heddlu drin pob unigolyn sy'n adrodd am gam-drin domestig fel dioddefwyr yn bennaf. Gall dioddefwyr hefyd fod yn amharod i adrodd am gamdriniaeth oherwydd eu bod ofn bydd yr Heddlu'n rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau statudol ac anstatudol eraill o fewn y Swyddfa Gartref at ddiben rheoli mewnfudo. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â statws mewnfudo a dioddefwyr mudol, gweler y canllawiau statudol ar gam-drin domestig⁶.
- 3.2.12 Ni ddylid defnyddio DAPN yn lle cyhuddo pan fydd y trothwy ar gyfer cyhuddo wedi'i fodloni, er y gellid defnyddio DAPN [ar y cyd](#) â phenderfyniad i gyhuddo ac amodau mechnïaeth. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid rhoi ystyriaeth lawn i ddiogelu anghenion y dioddefwr.

Sefyllfaoedd pan allai'r heddlu ystyried rhoi DAPN:

- Pan fydd yr heddlu'n mynychu galwad ac yn asesu bod person wedi cael ei gam-drin a'i fod naill ai mewn perygl uniongyrchol o niwed, neu fod gwybodaeth neu dystiolaeth bod y tramgwyddwr yn bwriadu cam-drin yr unigolyn.
- Gallai'r heddlu hefyd wneud asesiad o'r fath pan fyddan nhw'n cyhuddo'r tramgwyddwr o gyflawni trosedd, o ystyried y gallai ymyrraeth yr heddlu sbarduno cam-drin pellach neu greu'r risg o gam-drin yn digwydd.
- Pan fydd BTP yn mynychu galwad ar y rheilffordd ac yn nodi ymddygiad camdriniol lle mae'r ddau barti'n bersonol gysylltiedig. Mae'n fwyaf tebygol y byddai DAPN yn cael ei ystyried a'i roi yn y ddalfa yn dilyn cael ei arestio am drosedd.

⁶ [Cam-drin Domestig: canllawiau statudol \(fersiwn hygyrch\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

- Pan fydd staff rheilffyrdd a'r sawl sy'n gweithio mewn safleoedd sydd â thenant ar isadeiledd rheilffyrdd yn datgelu cam-drin domestig. Mewn rhai achosion, gall hyn ddigwydd tra ar awdurdodaeth BTP. Mewn achosion o'r fath gellid ystyried DAPN yn dilyn arestio.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

3.3 Awdurdodi Rhybudd Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN)

- 3.3.1** Dim ond "uwch swyddog heddlu", sy'n gwnstabl ar lefel arolygydd o leiaf, all awdurdodi DAPN ([Adran 22\(8\) Deddf Cam-drin Domestig 2021](#)).
- 3.3.2** Er mwyn awdurdodi DAPN, rhaid bod uwch swyddog yr heddlu o'r farn bod sail resymol yn bodoli dros gredu bod y meini prawf statudol ar gyfer cyhoeddi DAPN wedi eu bodloni – gweler adran 3.2.1 o'r canllawiau hyn uchod am grynodedeb o'r meini prawf hyn.
- 3.3.3** Cyn rhoi'r DAPN, rhaid i uwch swyddog yr heddlu ystyried ([Adran 24\(1\)](#)) o'r Ddeddf:
- a) Lles unrhyw berson o dan 18 oed y mae'r swyddog yn ystyried fod eu buddiannau yn berthnasol – nid oes rhaid i'r person hwn fod yn gysylltiedig yn bersonol â'r tramgwyddwr;
 - b) Barn y dioddefwr;
 - c) Unrhyw sylwadau gan y tramgwyddwr ynglŷn â rhoi'r DAPN ar waith;
 - d) Pan fydd y DAPN yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â meddiannu'r annedd lle mae'r dioddefwr yn byw, barn unrhyw berson arall sy'n byw yn yr annedd sy'n bersonol gysylltiedig â'r dioddefwr neu â'r tramgwyddwr (os yw'r tramgwyddwr hefyd yn byw yn yr annedd).
- 3.3.4** Bydd angen i'r uwch swyddog heddlu ystyried gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol arall, fel unrhyw adroddiadau yn ymwneud â digwyddiad o alwadau blaenorol, gan gynnwys y rhai yn erbyn unigolion eraill i'w gwarchod; unrhyw wybodaeth gan asiantaethau neu sefydliadau eraill; a ph'un a fyddai gweithredu'r DAPN yn gwneud y tramgwyddwr yn ddigartref neu'n agored i niwed. Pe bai'r DAPN yn gwneud y tramgwyddwr yn ddigartref neu'n agored i niwed, dylid ystyried hyn ynghyd â'r gofyniad i amddiffyn y dioddefwr rhag camdriniaeth.
- 3.3.5** Does dim angen i'r dioddefwr gydsynio gyda rhoi'r DAPN. Fodd bynnag, dylid ystyried a chofnodi safbwyntiau'r dioddefwr er mwyn adlewyrchu'n gywir yr amgylchiadau y cafodd y DAPN ei roi ([Adran 24\(4\)](#)).
- 3.3.6** Os nad yw dioddefwr yn cydsynio i MARAC neu wasanaethau eraill, a bod atgyfeiriad yn cael ei wneud ar sail dyfarniad proffesiynol, yna rhaid rhoi eglurhad clir i'r dioddefwr ynglŷn â pham y gwnaed y penderfyniad hwn. Er enghraifft, mewn achosion fel bygythiad difrifol i fywyd, neu dagu sydd heb fod yn farwol.

3.3.7 Os yw dioddefwr yn mynegi ei fod yn dymuno gwneud cais am DAPO ei hun drwy'r llys teulu, yna dylid ei gefnogi i wneud hynny⁷. Dylid cofnodi hyn hefyd ar systemau heddlu lleol.

3.4 Cyflwyno Hysbysiad Diogelu Rhag Cam-drin Domestig (DAPN) a Hysbysiad Gwrandawriad

3.4.1 Rhaid gwneud DAPN yn ysgrifenedig a'i gyflwyno i'r tramgwyddwr yn bersonol gan gwnstabl neu berson a gyflogir gan awdurdod heddlu ([Adran 25\(3\)](#)).

3.4.2 Rhaid i DAPN gynnwys yr wybodaeth ganlynol ([Adran 25\(2\)](#)):

- a) ac ar ba sail y rhoddwyd y DAPN;
- b) y gall cwnstabl arestio'r tramgwyddwr heb warant os oes gan y cwnstabl sail resymol dros gredu bod y tramgwyddwr yn torri'r DAPN;
- c) y bydd cais am DAPO o dan [Adran 25\(2\)](#) yn cael ei glywed o fewn 48 awr o roi'r DAPN, gan ddiystyru gwyliau banc;
- d) bod y DAPN yn parhau i fod mewn grym hyd nes bod y cais hwnnw wedi'i benderfynu neu ei dynnu'n ôl; ac
- e) y ddarpariaeth gall llys ynadon ei gynnwys mewn DAPO.

3.4.3 Disgwylir i'r cwnstabl sy'n cyflwyno'r DAPN egluro gofynion y DAPN yn llawn i'r tramgwyddwr ar yr adeg y caiff y DAPN ei gyhoeddi. Dylai'r cwnstabl sicrhau bod y tramgwyddwr yn deall gofynion y DAPN ac y gellir ei arestio am dorri'r gofynion hynny a bod yn rhaid iddo ystyried unrhyw nodweddion gwarchodedig y tramgwyddwr. Dylai'r tramgwyddwr gael gwybodaeth ynglŷn â'r DAPN a'r DAPO.

3.4.4 Os yw darpariaethau'r DAPN yn arwain at wneud y tramgwyddwr yn ddigartref, disgwylir i'r heddlu roi gwybodaeth a manylion cyswllt i'r tramgwyddwr er mwyn iddo wneud cais digartrefedd i'r Awdurdod Lleol.

3.4.5 Wrth gyflwyno'r DAPN, rhaid i'r cwnstabl ofyn i'r tramgwyddwr am gyfeiriad lle gellir rhoi hysbysiad o'r gwrandawriad ynglŷn â gwneud cais am y DAPO iddo ([Adran 25\(4\)](#)).

3.4.6 Bydd Hysbysiad Gwrandawriad y cais am DAPO ([Adran 29\(5\)](#)) (y mae'n rhaid ei roi i'r tramgwyddwr o dan [Adran 29\(4\)](#)) yn cael ei drin fel pe bai wedi ei roi os yw wedi ei adael yn y cyfeiriad a roddir gan y tramgwyddwr i'r cwnstabl o dan [Adran 25\(4\)](#).

3.4.7 Os na roddir yr Hysbysiad Gwrandawriad oherwydd nad yw'r tramgwyddwr wedi rhoi cyfeiriad, gall y llys glywed y cais am y DAPO yn absenoldeb y tramgwyddwr os yw'n

⁷ Gall dioddefwyr wneud cais i'r llys teulu drwy'r ffurflen hon: www.gov.uk/guidance/apply-for-a-domestic-abuse-protection-order-in-a-family-court

fodlon bod Prif Swyddog yr heddlu wedi gwneud ymdrechion rhesymol i roi'r Hysbysiad Gwrandawriad i'r tramgwyddwr ([Adran 29\(6\)](#)).

- 3.4.8 Pan fydd swyddog yn credu bod tramgwyddwr yn aelod o'r lluoedd arfog sy'n ddarostyngedig i gyfraith y gwasanaeth (h.y., aelod o luoedd rheolaidd neu luoedd wrth gefn) ac mae'r DAPN yn cynnwys gwaharddiadau neu ofynion sy'n gysylltiedig â meddiannu anheddau sy'n llety gwasanaeth perthnasol, ([Adran 25\(7\)](#)), rhaid i'r heddlu wneud ymdrechion rhesymol i hysbysu prif swyddog rheoli'r tramgwyddwr fod y DAPN yn cael ei roi ([Adran 25\(5\) i \(7\)](#)).

3.5 Torri Rhybudd Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPN)

- 3.5.1 Mae'n hanfodol er mwyn cynnal hyder y dioddefwr ac effeithiolrwydd trefn y gorchymyn amddiffynol bod pob achos o dorri DAPN a gaiff eu hadrodd yn cael eu hymchwilio'n drylwyr a bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn modd amserol. Dylid arestio ar y cyfle cyntaf, gan y gallai unrhyw oedi gynyddu'r risg i'r dioddefwr ac felly danseilio pwrpas y DAPN. Os oes gan gwnstabl sail resymol dros gredu bod y tramgwyddwr yn torri'r DAPN, caiff y cwnstabl arestio'r tramgwyddwr heb warant ([Adran 26\(1\)](#)).
- 3.5.2 Mae [adran 26\(9\)](#) o'r Ddeddf yn diwygio adran 17(1) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (mynediad at ddiben arestio ac ati) (h.y., PACE), i roi pŵer mynediad i'r heddlu at ddiben arestio am dorri DAPN.
- 3.5.3 Os caiff tramgwyddwr ei arestio ar amheuaeth o dorri DAPN, rhaid iddo gael ei gadw yn y ddalfa cyn cael ei ddwyn gerbron y llys ynadon ([Adran 26\(2\)](#)), naill ai o fewn 24 awr i'r arestiad (heb gyfrif gwyliau banc) neu os trefnwyd bod gwrandawriad DAPO eisoes yn digwydd o fewn y cyfnod 24 awr hwnnw, yng ngwrandawriad y cais am DAPO, p'un bynnag sydd gynharaf. Os caiff y tramgwyddwr ei ddwyn gerbron y llys o fewn y cyfnod o 24 awr ers yr arestiad, gall y llys gadw'r tramgwyddwr naill ai yn y ddalfa neu ar fechnïaeth ([Adran 26\(5\)](#)).
- 3.5.4 Bydd yr heddlu'n ymwybodol o'r gofynion a roddwyd ar waith gan y llys wrth remandio tramgwyddwr ar fechnïaeth yn dilyn toriad rhybudd, gan y byddant yn bresennol yn y gwrandawriad. Mewn achosion lle nad yw'r heddlu'n bresennol, bydd unrhyw ofynion a osodir gan y llys ynadon yn cael eu lanlwytho i'r PNC. Wrth remandio'r tramgwyddwr ar fechnïaeth, gall y llys osod gofynion, cyn ei ryddhau neu wedi hynny, sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r llys er mwyn sicrhau nad yw'r tramgwyddwr yn ymyrryd â thystion nac fel arall yn atal cwrs cyfiawnder ([Adran 26\(7\)](#)).
- 3.5.5 Rhaid i berson sydd wedi cael ei arestio am dorri DAPN gael ei gadw yn y ddalfa a'i ddwyn gerbron llys ynadon o fewn 24 awr o arestio, neu ar yr adeg a bennwyd ar gyfer clywed y cais am y DAPO os yw hynny'n gynharach ([Adran 26](#)). Gall yr ymddangosiad fod trwy ddolen fyw ([Adran 26\(8\)](#)).
- 3.5.6 Os daethpwyd â'r tramgwyddwr gerbron y llys yn dilyn torri DAPN a bod y llys yn gohirio gwrandawriad y cais ar gyfer y DAPO, gall y llys gadw'r tramgwyddwr yn y ddalfa ([Adran 29\(8\)](#) ac [Adran 30](#)).

- 3.5.7** Dylai'r heddlu roi gwybod i asiantaethau partner, fel y gwasanaeth prawf, gofal cymdeithasol, gwasanaethau cam-drin domestig ac ati, am unrhyw doriad honedig a manylion cysylltiedig a allai lywio unrhyw gynlluniau rheoli risg y mae'r asiantaethau partner yn eu cyflawni mewn perthynas â'r tramgwyddwr. Pan fydd heddlu nad sy'n treialu'r rhaglen beilot yn cael gwybodaeth am doriad honedig, dylent rannu'r wybodaeth hon â'r heddlu peilot perthnasol. Cyfrifoldeb yr heddlu peilot yw hysbysu'r asiantaethau partner perthnasol.
- 3.5.8** Rhaid rhoi ystyriaeth bob amser i ganfod ac ymchwilio i droseddau sylweddol sy'n deillio o'r toriad os, ar ôl torri'r DAPN, yw'r tramgwyddwr wedi cymryd rhan mewn ymddygiad troseddol. Mae'n ofynnol i luoedd nad ydynt yn treialu'r rhaglen beilot i hysbysu heddluoedd peilot o dorri DAPN neu DAPO er mwyn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n gywir ar gyfer monitro a gwerthuso rhaglenni peilot.

3.6 Cais am Orchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO) yn dilyn DAPN

- 3.6.1** Mae DAPO yn orchymyn a wneir at ddiben atal y tramgwyddwr rhag cam-drin person 16 oed neu drosodd, y mae ganddo gysylltiad personol [ag ef \(Adran 27\)](#). Mae DAPO:
- a) yn gwahardd y tramgwyddwr rhag cyflawni gweithredoedd a bennir yn y gorchymyn;
 - b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r tramgwyddwr gydymffurfio â'r camau a bennir yn y gorchymyn.
- 3.6.2** Pan fydd DAPN wedi'i roi, rhaid i brif swyddog yr heddlu wneud cais am DAPO drwy gŵyn i lys ynadon gan brif swyddog yr heddlu a roddodd y DAPN [\(Adran 28\(3\)\)](#).
- 3.6.3** Rhaid i lys yr ynadon wrando ar gais am DAPO heb fod yn hwyrach na 48 awr ar ôl i'r hysbysiad gael ei roi i'r tramgwyddwr [\(Adran 29 \(2\)\)](#). Wrth gyfrifo'r 48 awr, mae'r dyddiau canlynol i'w diystyru [\(Adran 29 \(3\)\)](#) wrth gyfeirio at ddydd Sul a gwyliau banc.
- 3.6.4** Mae rhagor o fanylion am y DAPO wedi'u cynnwys yn yr adran nesaf, gan gynnwys ar swyddogion yr heddlu sy'n teilwra'r cais i'r gwahanol fathau o ofynion a fyddai'n fwyaf effeithiol o ran diogelu'r dioddefwr a mynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol y tramgwyddwr. Darperir rhagor o wybodaeth am y gofynion y gellir eu gosod gan DAPO yn adran 6 ac adran 7.
- 3.6.5** Os oes angen amser ychwanegol i ystyried pa ofynion sydd fwyaf priodol, efallai bydd yr heddlu'n dymuno gofyn am ohirio'r gwrandawriad at y diben hwn. Dylid nodi mai dim ond os oes gwir angen y dylid gwneud ceisiadau am ohirio, a dylent bob amser fod yn benodol ar gyfer yr achos, er enghraifft, bod yr heddlu wedi derbyn gwybodaeth ychwanegol y mae angen iddyn nhw ymchwilio ymhellach iddo oherwydd y gallai ddylanwadu ar eu cais am DAPO.

3.6.6 Os bydd y llys yn gohirio gwrandawriad y cais am y DAPO, bydd y DAPN yn parhau mewn grym nes bod y cais wedi'i bennu neu ei dynnu'n ôl ([Adran 29\(7\)](#)). Does dim darpariaeth yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 i'r llys ynadon wneud DAPO dros dro.

4 Cais annibynnol gan yr heddlu am DAPO

4.1 Amodau ar gyfer gwneud Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)

4.1.1 Mae DAPO yn orchymyn a wnaed at ddibenion amddiffyn dioddefwr rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig fel a gaiff ei ddiffinio yn [Adran 1 o'r Ddeddf](#) ac:

- a) Mae'n gwahardd y tramgwyddwr rhag cyflawni gweithredoedd a bennir yn y gorchymyn;
- b) Mae'n ei wneud yn ofynnol i'r tramgwyddwr gydymffurfio â'r camau a bennir yn y gorchymyn.

4.1.2 Mae'r meini prawf ar gyfer gwneud DAPN a DAPO yr un peth. Gall llys wneud DAPO ([Adran 32](#)):

- a) Os yw'r tramgwyddwr yn 18 oed neu'n hŷn ac wedi bod yn cam-drin person 16 oed neu drosodd y mae wedi'i gysylltu ag ef yn bersonol⁸;
- b) Os yw'r llys o'r farn bod y DAPO yn **angenrheidiol ac yn gymesur** i amddiffyn yr unigolyn rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig, a gyflawnir gan y tramgwyddwr.

4.1.3 Gorchymyn sifil yw DAPO ac felly nid oes angen unrhyw gollfarn ymlaen llaw er mwyn i'r llys wneud DAPO nac i'r heddlu wneud cais. Fel a osodir yn [Adran 127](#) o Ddeddf Llys Ynadon 1980, gellir gwneud cais am DAPO hyd at 6 mis ar ôl i ddigwyddiad ddigwydd.

4.1.4 Gellir gwneud DAPO er mwyn atal tramgwyddwr rhag bod yn gamdriniol i ddioddefwyr sy'n 16 oed neu'n hŷn.

4.1.5 At ddibenion y rhaglen beilot, mae'n rhaid i'r tramgwyddwr breswyllo yn ardal yr heddlu peilot er mwyn i DAPO gael ei ddwyn. Gall y dioddefwr breswyllo yn unrhyw le, gan gynnwys y tu allan i'r ardal beilot.

4.1.6 Does dim gwahaniaeth os ddigwyddodd yr ymddygiad camdriniol yng Nghymru, Lloegr neu rywle arall.

⁸ [Mae adran 2 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn](#) diffinio'r term 'cysylltiad personol' fel dau berson sydd; (1) yn briod â'i gilydd neu wedi bod yn briod â'i gilydd, (2) yn bartneriaid sifil i'w gilydd neu wedi bod yn bartneriaid sifil i'w gilydd, (3) wedi cytuno i briodi ei gilydd (does dim ots a yw'r cytundeb wedi ei derfynu ers hynny), (4) sydd, neu wedi bod, mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd, (5) wedi cael, neu wedi bod adeg pan fod y naill wedi cael perthynas rhiant mewn perthynas â'r un plentyn, (6) yn berthnasau.

- 4.1.7 Mewn achosion lle mae tystiolaeth o ymddygiad stelcio, dylid ystyried safbwyntiau'r dioddefwr ynghylch a allai [Gorchymyn Amddiffyn Rhag Stelcio](#) fod yn fwy priodol yng nghydbwysedd yr amddiffyniadau sydd ar gael o dan DAPO. Mae'r Coleg Plismona yn cynghori swyddogion i ystyried yr acronym FOUR wrth nodi ymddygiad stelcio: yn sefydlog, yn obsesiynol, yn ddi-groeso ac yn cael ei ailadrodd (Fixated, Obsessive, Unwanted and Repeated)⁹.
- 4.1.8 Mewn achosion lle mae tystiolaeth o gam-drin yn seiliedig ar yr hyn a elwir yn 'anrhydedd', dylid ystyried a allai [Gorchymyn Amddiffyn Rhag Priodas dan Orfod](#) neu [Orchymyn Diogelu Rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod](#) fod yn fwy priodol o ran yr amddiffyniadau sydd ar gael o dan DAPN. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â phriodas dan Orfod a FGM i'w gweld yn y [canllawiau ac arferion statudol amlasiantaethol ar briodas dan Orfod](#) a'r [canllawiau statudol amlasiantaethol ar FGM](#).
- 4.1.9 Gall yr heddlu wneud cais am DAPO annibynnol gyda neu heb rybudd i'r tramgwyddwr. I gael rhagor o wybodaeth am wneud DAPO heb rybudd, gweler Adran 4.3 y ddogfen ganllaw hon.
- 4.1.10 Ni ddylid gwneud cais am DAPO yn lle cyhuddo lle mae'r trothwy ar gyfer cyhuddo wedi'i fodloni. Fodd bynnag, gellir gwneud cais am DAPO ar y cyd â phenderfyniad i gyhuddo os oes angen amddiffyn y dioddefwr rhag y tramgwyddwr drwy gydol yr achos troseddol. Rhaid rhoi ystyriaeth bob amser i ganfod ac ymchwilio i droseddau sylweddol. Mae'n bwysig nodi y gellir defnyddio mechnïaeth gydag amodau a DAPO ar yr un pryd i greu mwy o amddiffyniad i'r dioddefwr.
- 4.1.11 Mae disgwyl i'r heddlu gynnwys eu hargymhellion ar gyfer gwaharddiadau neu ofynion yn eu cais am DAPO. I gael gwybodaeth am y gwaharddiadau a'r gofynion y gellir eu cynnwys fel rhan o'r DAPO, gan gynnwys atgyfeiriadau rhaglenni tramgwyddwr a thagiâu monitro electronig, yn ogystal ag ystyriaethau ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei osgoi, gweler adrannau 6 a 7.
- 4.1.12 Gall cam-drin domestig gynnwys un digwyddiad o ymddygiad camdriniol neu batrwm o ymddygiad dros amser. Felly efallai bydd angen i'r heddlu a'r llysoedd ystyried gweithred neu weithredoedd a wnaed cyn cychwyn Deddf Cam-drin Domestig 2021 a rhaglen beilot DAPN a DAPO. Pan fydd hynny'n digwydd, dylai'r heddlu sefydlu ymddygiad perthnasol er mwyn cefnogi'r asesiad o reidrwydd ac o'r risg a berir i'r dioddefwr..

Enghreifftiau lle gall heddluoedd rhaglen beilot ystyried cais am DAPO annibynnol:

- Lle mae cam-drin domestig wedi dod i sylw'r heddlu yn ystod ymchwiliad ar wahân neu drwy ddulliau eraill, fel drwy atgyfeiriad trydydd parti trwy brosesau MARAC neu MAPPA; drwy atgyfeiriad trydydd parti gan gorff statudol neu gan sefydliad anllywodraethol; neu drwy adrodd gan aelod o'r cyhoedd;

⁹ Cyngor y Coleg Plismona i ymchwilyr ar stelcio neu aflonyddu - [Stelcio neu aflonyddu: Cyngor i ymchwilyr ar ymchwiliad effeithiol \(college.police.uk\)](#)

- Cyn ymchwiliad, neu ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad;
- Cyn dwyn erlyniad am drosedd, neu ar unrhyw adeg yn ystod achos troseddol, ar gollfarn, ar ôl collfarn, tra'n aros am apêl yn erbyn collfarn neu ar ryddfarn.
- Os yw'r tramgwyddwr ar fechnïaeth am drosedd, ac nad yw'r amodau mechnïaeth yn darparu amddiffyniad digonol i'r dioddefwr, gellid ystyried DAPO.
- Lle nad yw erlyniad yn cael ei ddilyn, ond mae gan yr heddlu sail resymol dros gredu bod DAPO yn angenrheidiol ac yn gymesur i amddiffyn yr unigolyn rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

4.2 Ystyriaethau ynghylch y tramgwyddwr wrth wneud cais Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)

- 4.2.1 Disgwylir i'r heddlu holi cofnodion heddlu perthnasol i weld a yw'r tramgwyddwr eisoes yn destun gorchymyn llys neu waharddeb arall. Disgwylir i'r heddlu hefyd adolygu manylion unrhyw wybodaeth bellach, fel unrhyw fanylion trosedd blaenorol a gedwir am y tramgwyddwr. Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch pa ofynion i'w cynnwys yn y DAPO yn cael ei wneud gan y llys.
- 4.2.2 Gellir gwneud cais am DAPO yn dilyn DAPN, neu gais am DAPO annibynnol mewn achosion lle mae'r tramgwyddwr yn destun amodau mechnïaeth. Disgwylir i'r heddlu adolygu manylion unrhyw amodau mechnïaeth, gan sicrhau nad oes gwrthdaro â'r amodau a geisir fel rhan o gais DAPO.
- 4.2.3 Rhaid i'r heddlu hefyd roi sylw dyledus i nodweddion gwarchodedig a sefyllfaol y tramgwyddwr.

4.3 Gwneud Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO) heb rybudd

- 4.3.1 Mae'r trefniadau ar gyfer cais heddlu am DAPO annibynnol yr un peth ag ar gyfer cais heddlu am DAPO yn dilyn DAPN. Yr eithriad i hyn yw pan fydd yr heddlu'n gwneud DAPO heb rybudd fel caiff ei drafod yn yr adran hon o'r ddogfen ganllaw.
- 4.3.2 Gall y llys wneud DAPO yn erbyn y tramgwyddwr heb i'r tramgwyddwr gael rhybudd o'r achos os yw'r llys o'r farn ei fod yn gyfiawn ac yn gyfleus ar gyfer amddiffyn y dioddefwr ([Adran 34](#)). Sylwer, nid yw [Adran 34](#) yn berthnasol i geisiadau DAPO a wneir gan yr heddlu yn dilyn DAPN lle nad oes gan yr heddlu gyfeiriad ar gyfer gwasanaeth. Mewn achosion o'r fath mae [adran 29\(4\) i \(6\)](#) yn gymwys (gweler adran 3.4.7 a 3.4.8 o'r ddogfen ganllaw hon).
- 4.3.3 Yn ymarferol, byddai ceisiadau heb rybudd ond yn cael eu gwneud mewn amgylchiadau eithriadol neu frys. Wrth wneud cais am y gorchymyn, byddai angen i'r heddlu gyflwyno tystiolaeth i'r llys ynghylch pam bod angen cais am DAPO heb rybudd.
- 4.3.4 Wrth benderfynu a ddylid gwneud DAPO yn ddirybudd, rhaid i'r llys roi sylw i'r holl amgylchiadau, gan gynnwys:
- a) unrhyw risg byddai'r tramgwyddwr yn achosi niwed sylweddol i'r dioddefwr os na wneir y DAPO ar unwaith;
 - b) os yw'n debygol bydd y person a wnaeth gais am y DAPO yn cael ei atal neu ei rwystro rhag dilyn y cais os na wneir y DAPO ar unwaith;
 - c) os oes lle i gredu bod y tramgwyddwr yn ymwybodol o'r achos ond ei fod yn osgoi cael ei gyflwyno gyda rhybudd o'r gwrandawriad yn fwriadol a bydd yr oedi sy'n

gysylltiedig â gweithredu gwasanaeth achos dirprwyedig yn achosi rhagfarn ddifrifol i'r person y bwriedir ei amddiffyn gan y gorchymyn yr ymgeisir amdano.

- 4.3.5 Os bydd llys yn gwneud DAPO heb rybudd yn erbyn y tramgwyddwr, rhaid i'r llys roi cyfle i'r tramgwyddwr gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r DAPO cyn gynted ag y bydd yn "gyfiawn a chyfleus", mewn gwrandawriad y mae pob parti wedi cael hysbysiad ohono yn unol â rheolau'r llys.

5 Gorchmynion Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPOau) a wnaed yn ystod achos llys troseddol parhaus

- 5.1 Pan fydd y tramgwyddwr wedi'i gael yn euog o drosedd, gall y llys sy'n delio â'r tramgwyddwr am y drosedd honno (yn ogystal â dedfrydu'r tramgwyddwr neu ddelio â'r tramgwyddwr mewn unrhyw ffordd arall) ddyroddi DAPO yn erbyn y tramgwyddwr ([Adran 31 \(3\)](#)). Nid yw hyn yn berthnasol mewn achosion lle mae'r Llys Apêl yn delio â'r tramgwyddwr am drosedd ([Adran 31 \(4\)](#)).
- 5.2 Pan fydd person wedi'i ryddfarnu o drosedd, gall y llys wneud DAPO yn erbyn y person hwnnw ([Adran 31 \(5\)](#)).
- 5.3 Pan fydd Llys y Goron yn caniatáu apêl person yn erbyn collfarn am drosedd, gall Llys y Goron wneud DAPO yn erbyn y person hwnnw ([Adran 31 \(6\)](#)).
- 5.4 Os yw'r heddlu neu'r erlynwyr yn dymuno i'r llys wneud DAPO, rhaid iddyn nhw gyflwyno hysbysiad i'r diffynnydd a'r llys ymlaen llaw gyda gorchymyn drafft. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r heddlu weithio'n agos gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar ddatblygu'r ffurf a chynnig unrhyw argymhellion. Os yw'r llys yn dymuno o'i fodd ei hun i wneud DAPO, dylai roi rhybudd i'r diffynnydd a gall ofyn am gymorth y CPS, a thrwyddyn nhw, yr heddlu, ynghylch y telerau.
- 5.5 Ar adeg dedfrydu neu rhyddfarnu, lle mae'n ymddangos bod yr amodau statudol ar gyfer gwneud DAPO wedi cael eu bodloni, does dim angen i'r heddlu wneud cais ar wahân; bydd y llys yn gwneud y cais yn yr achos troseddol, gyda mewnbwn gan y CPS, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan yr heddlu. Er nad yw'n ofynnol i'r heddlu wneud cais ar wahân ar gyfer DAPO, mae'n ofynnol iddyn nhw gynorthwyo gyda darparu tystiolaeth i gefnogi'r cais sy'n cael ei gyflwyno gan y llys.

6 Gwaharddiadau a gofynion cadarnhaol

6.1 Darpariaethau allweddol

- 6.1.1** Rhaid i'r llys ystyried pa ofynion (os o gwbl) sy'n angenrheidiol er mwyn amddiffyn person rhag yr ymddygiad camdriniol ([Adran 35\(2\)](#)). Disgwylir i'r darpariaethau a geisir gan yr heddlu yn eu ceisiadau DAPO adlewyrchu hyn. Gall ymddygiad camdriniol y tramgwyddwr gymryd unrhyw un o'r ffurfiau a nodir yn y diffiniad o gam-drin domestig yn [Adran 1](#) y Ddeddf, neu unrhyw gyfuniad ohonynt.
- 6.1.2** Gall llys osod darpariaethau yn y DAPO y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol ac yn gymesur i ddiogelu'r person y gwneir y gorchymyn diogelu ar ei gyfer. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys gwaharddiadau, cyfyngiadau neu ofynion cadarnhaol.
- 6.1.3** Dylid teilwra amodau gwaharddiadau, cyfyngiadau neu ofynion cadarnhaol i amddiffyn y dioddefwr a mynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol y tramgwyddwr, yn seiliedig ar bob achos. Rhaid i'r cais am DAPO nodi'n effeithiol yr amodau mae'r heddlu yn eu hystyried i fod yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn yr unigolyn rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig, gan y tramgwyddwr.
- 6.1.4** Mae gofynion cadarnhaol yn ei gwneud yn ofynnol i'r tramgwyddwr gymryd camau y mae'n rhaid i berson cyfrifol eu monitro. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf ag atgyfeiriadau ar gyfer presenoldeb gorfodol ar raglen e.e. rhaglen newid ymddygiad, neu ymyraethau triniaeth sy'n canolbwyntio ar gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol; gweler adran 6.3 o'r ddogfen ganllaw hon am wybodaeth bellach. Mae gwaharddiadau yn cyfeirio at y gofynion y gellir eu rhoi ar waith ar gyfer DAPO; gweler adran 6.2 o'r ddogfen ganllaw hon am wybodaeth bellach.
- 6.1.5** Ceir manylion pellach ynglŷn â'r nodweddion allweddol o fewn cwrpas DAPO drwy gydol y ddogfen ganllaw hon. Gweler isod:

Gwaharddiadau: unrhyw un yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol i amddiffyn y dioddefwr rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig	Adran 6.2
Gofynion cadarnhaol, yn cynnwys presenoldeb yn bennaf ar newid ymddygiad tramgwyddwr, camddefnyddio sylweddau neu raglen cymorth iechyd meddwl	Adran 6.3
Gofynion monitro electronig neu "tagio"	Adran 7

- 6.1.6 Disgwylir i'r heddlu ymgysylltu â'r dioddefwr i gael eu barn ar y gofynion mwyaf priodol i'w gofyn yn y cais ar gyfer DAPO. Dylai'r heddlu ystyried IDVAau neu wasanaethau cymorth eraill i gynorthwyo gyda'u hymgysylltiad â dioddefwyr. Gallai hyn gynnwys gwneud atgyfeiriad, cyfeirio ac holi gyda'r dioddefwr ynghylch a ydynt eisoes wedi ymgysylltu ag IDVA neu wasanaeth cymorth. Fel arall, os yw'r dioddefwr yn mynegi ei fod yn dymuno gwneud cais am DAPO ei hun drwy'r llys teulu, yna dylid ei gefnogi i wneud hynny¹⁰.
- 6.1.7 Mae disgwyl i'r heddlu hefyd ystyried efallai na fydd y dioddefwr yn ymwybodol o'r holl ymddygiadau camdriniol sy'n cael eu harddangos gan y tramgwyddwr, yn enwedig ymddygiadau sy'n cael eu cynnal ar-lein neu sydd fel arall yn cael eu "galluogi yn ddigidol" (er enghraifft, os yw'r tramgwyddwr yn monitro'r dioddefwr trwy osod rhaglen neu gais ar ddyfeisiau personol sy'n perthyn i'r dioddefwr), neu efallai na fydd y dioddefwr yn credu bod yr ymddygiad yn gyfystyr â cham-drin domestig. Bydd disgwyl i'r heddlu drafod hyn gyda'r dioddefwr a dylent fod yn fodlon bod y dioddefwr yn deall pam bod rhai ymddygiadau yn annerbyniol.
- 6.1.8 Rhaid i ofynion DAPO, i'r graddau y bod hi'n ymarferol, osgoi gwrthdaro â chredoau crefyddol y tramgwyddwr, gwaith neu addysg y tramgwyddwr, neu ofynion unrhyw orchymyn llys arall y mae'r tramgwyddwr yn ddarostyngedig iddo. Fodd bynnag, os nad yw'n ymarferol osgoi'r gwrthdaro, yna gall y llys osod y gofyniad o hyd ([Adran 36\(1\)](#)).
- 6.1.9 Mae DAPO yn effeithiol am gyfnod penodedig a bennir yn y gorchymyn, hyd nes y bydd digwyddiad penodedig yn digwydd, neu nes y gwneir gorchymyn pellach ([Adran 38](#)). Gellir pennu gwahanol gyfnodau mewn perthynas â gwahanol ofynion DAPO. Er mai'r llys sydd â llais terfynol dros y cyfnod mae'r gorchymyn a'i ofynion unigol yn berthnasol, disgwylir i'r heddlu wneud eu hargymhellion mewn perthynas â hyd unrhyw ofynion DAPO.
- 6.1.10 Os yw'r tramgwyddwr eisoes yn ddarostyngedig i DAPO arall, gall y llys nodi bydd y DAPO newydd yn dod i rym ar yr adeg bydd y DAPO blaenorol yn peidio â chael effaith ([Adran 38\(2\)](#)). Fodd bynnag, lle mae'r tramgwyddwr yn destun gorchymyn amddiffynol arall, fel Gorchymyn Peidio ag Ymyrryd, gellir gwneud DAPO o hyd ar yr amod nad yw amodau pob gorchymyn yn gwrthdaro.
- 6.1.11 Mae gofyniad a osodir gan DAPO yn ystod y peilot yn cael effaith ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig oni bai ei fod wedi'i gyfyngu'n benodol i ardal benodol ([Adran 38\(7\)](#)).

6.2 Gwaharddiadau

- 6.2.1 Gall DAPO osod ystod o ofynion ([Adrannau 35\(4\) i \(6\)](#)), fel:

¹⁰ Gall dioddefwyr wneud cais am DAPO drwy'r ffurflen hon: www.gov.uk/government/publications/apply-to-vary-or-discharge-a-domestic-abuse-protection-order-made-in-a-family-court-form-da3

- a) gwahardd y tramgwyddwr rhag cysylltu â'r dioddefwr (mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cyswllt mewn unrhyw fodd, gan gynnwys dros y ffôn, drwy'r post, e-bost, neges destun SMS neu'r cyfryngau cymdeithasol);
- b) gwahardd y tramgwyddwr rhag dod o fewn pellter penodol i unrhyw safle yng Nghymru a Lloegr y mae'r dioddefwr yn byw. Gall DAPO hefyd wahardd y tramgwyddwr rhag dod o fewn pellter penodedig i unrhyw annedd a bennir gan y llys, neu unrhyw annedd arall o ddisgrifiad penodol. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw fan lle gellir dod o hyd i'r dioddefwr yn arferol, fel man gwaith y dioddefwr, man addoli, neu ysgol eu plant.
- c) gwahardd y tramgwyddwr, pan fydd y dioddefwr a'r tramgwyddwr yn byw yn yr un safle, rhag gyrru allan neu wahardd y dioddefwr o'r annedd honno, gwahardd y tramgwyddwr rhag mynd i mewn i'r annedd honno, neu ei gwneud yn ofynnol i'r tramgwyddwr adael yr annedd honno ([adran 35\(5\)](#)). Gellir gwneud y ddarpariaeth hon waeth pwy sy'n berchen ar neu'n rhentu'r safle.

6.2.2 Gall yr heddlu geisio, a gall y llys orfodi wedi hynny, unrhyw ofynion yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ddiogelu'r person rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig gan y tramgwyddwr. Nid yw'r enghreifftiau a roddir yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 yn gyflawn.

Er enghraifft, gallai'r heddlu hefyd geisio am ddarpariaethau er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol fel:

- a) Cysylltu â neu ryngweithio â'r dioddefwr trwy drydydd partion. Er enghraifft, plant, partner, aelodau eraill o'r teulu, ffrindiau neu gyd-weithwyr y dioddefwr;
- b) Hacio, monitro neu reoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, e-bost, ffôn, cyfrifiadur, neu ddyfeisiau personol eraill y dioddefwr;
- c) Cymryd rhan mewn unrhyw fath o wylidwriaeth o'r dioddefwr mewn unrhyw fodd;
- d) Ymyrryd â neu gyfyngu ar fynediad y dioddefwr i nwyddau, gwasanaethau neu eiddo;
- e) Difrodi neu fygwth difrodi eiddo sy'n perthyn i'r dioddefwr;
- f) Canslo neu gaffael nwyddau neu wasanaethau yn enw neu gyfrif y dioddefwr, neu gynyddu biliau neu ddyledion yn fwriadol yn enw'r dioddefwr (gyda neu heb yn wybod i'r dioddefwr);
- g) Ymyrryd â, cyfyngu ar fynediad y dioddefwr i, neu beri rhwystredigaeth fwriadol wrth waredu asedau ar y cyd;
- h) Rhannu neu gyhoeddi, neu fygwth rhannu neu gyhoeddi, gwybodaeth bersonol neu ddelweddau sy'n ymwneud â'r dioddefwr;

- i) Creu deunydd wedi'i drin neu ddeunydd synthetig ar-lein sy'n ymwneud â'r dioddefwr;
- j) Cyfeirio at y dioddefwr ar gyfryngau cymdeithasol naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

6.3 Gofynion cadarnhaol a'r person cyfrifol

6.3.1 Gall DAPO osod gofynion cadarnhaol, gan orfodi tramgwyddwr i weithredu. Ochr yn ochr â cheisio gwaharddiadau mewn perthynas â rhai mathau o ymddygiad camdriniol wrth iddynt wneud cais am DAPO, efallai bydd yr heddlu hefyd yn dymuno ystyried a oes angen unrhyw ofynion cadarnhaol i leihau'r risg a berir i'r dioddefwr.

6.3.2 Wrth ystyried pa ofynion cadarnhaol a allai fod yn angenrheidiol, disgwylir i'r heddlu ystyried ffactorau eraill y gallai fod angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sefydlogi'r tramgwyddwr. Gallai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, rhaglenni newid ymddygiad neu ymyraethau triniaeth sy'n canolbwyntio ar reoli defnydd cyffuriau neu alcohol sy'n broblemus. Sylwch, lle nodir yr angen i'r tramgwyddwr fynychu rhaglen neu ymyriad triniaeth, bydd yn ofynnol i'r tramgwyddwr roi ei gydsyniad gwybodus i gymryd rhan mewn rhaglen ymyriad triniaeth neu raglen newid ymddygiad.

6.3.3 Ar gyfer unrhyw ofyniad cadarnhaol a osodir o dan y DAPO, rhaid pennu "person cyfrifol" (unigolyn neu sefydliad) i asesu addasrwydd tramgwyddwr i ymgymryd â'r gofyniad, gwneud y trefniadau angenrheidiol, hysbysu'r heddlu ynglŷn â chydymffurfriad drwy gydol y gofyniad, a sicrhau cydgysylltiad ag asiantaethau eraill sy'n cyflawni gofynion o'r fath ([Adran 36\(2\)](#)).

6.3.4 Y person cyfrifol ar gyfer cynllun rhaglen beilot y DAPO fydd darparwr y rhaglen sy'n darparu'r gofyniad cadarnhaol (er enghraifft, darparwr y rhaglen newid ymddygiad). Mae'n ddyletswydd ar y person cyfrifol i wneud asesiad addasrwydd o ran a yw'r tramgwyddwr yn addas ar gyfer y gofyniad; gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol mewn cysylltiad â'r gofyniad cadarnhaol maen nhw'n gyfrifol amdano; hyrwyddo cydymffurfiaeth y tramgwyddwr â'r gofyniad hwnnw; ac i hysbysu'r heddlu ynglŷn â chydymffurfriad y tramgwyddwr neu ddiffyg cydymffurfio â'r gofyniad. Darperir rhagor o wybodaeth am fonitro cydymffurfiaeth â DAPO yn adran 10.

6.3.5 Ar gyfer unrhyw ofyniad cadarnhaol a osodir o dan yr DAPO, dylai'r heddlu sicrhau bod ymarferwyr ar wahân yn gweithio gyda'r tramgwyddwr a'r dioddefwr, os yw'r dioddefwr hefyd yn mynychu rhaglen gyda'r un darparwr gwasanaeth, a lle mae hyn yn hysbys. Lle na ellir osgoi hyn, dylai'r heddlu weithredu mesurau diogelu priodol.

6.4 Gwneud cais am ofyniad cadarnhaol

6.4.1 Wrth geisio cynnwys gofyniad cadarnhaol mewn cais DAPO, bydd angen i'r heddlu gynnwys asesu addasrwydd gan ddarparwr rhaglen ac enwi'r darparwr a ddewiswyd fel y

person cyfrifol. Mae angen yr wybodaeth hon wrth wneud cais i ganiatáu i'r llys benderfynu mewn gwrandawriad DAPO unigol a ddylid gosod y gofyniad hwn neu beidio.

- 6.4.2 Rhaid i'r llys dderbyn tystiolaeth ar addasrwydd a gorfodadwyedd y gofyniad. Gall y llys ynadon ofyn am wybodaeth ychwanegol am addasrwydd a gorfodadwyedd y person cyfrifol ([Adran 36 \(3\)](#)). O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen i'r heddlu drefnu i'r person cyfrifol fynychu'r llys i ddarparu gwybodaeth o'r fath.
- 6.4.3 Lle na ellir cwblhau'r asesiad addasrwydd mewn pryd i'r gofyniad cadarnhaol gael ei osod, efallai bydd y llys am ohirio'r gwrandawriad at y diben hwn. Os yw DAPN wedi'i gyhoeddi cyn y DAPO, bydd y DAPN yn parhau i fod mewn grym.
- 6.4.4 Wrth benderfynu at ba raglen i gyfeirio'r tramgwyddwr, dylai swyddogion yr heddlu geisio ymgysylltu yn gyntaf â'r sefydliad 'brysbennu', a fydd yn ei le ar gyfer atgyfeiriadau o'r fath ar gyfer rhaglen peilot y DAPO.
- 6.4.5 Bydd y tîm brysbennu yn rhoi cyngor arbenigol ar ba fath o raglen a/neu fenter fyddai fwyaf addas ym mhob achos, gan helpu i leihau'r risg o roi tramgwyddwr mewn rhaglen anaddas. Bydd y tîm brysbennu yn cysylltu â'r darparwr ynghylch asesiad y darparwr o addasrwydd.
- 6.4.6 Lle bydd DAPO yn dilyn DAPN a bod rhaid ei glywed o fewn 48 awr ar ôl cyhoeddi'r DAPN, dylai swyddogion wneud pob ymdrech i gysylltu â'r tîm brysbennu.
- 6.4.7 Wrth ddewis darparwyr rhaglenni ar gyfer cymryd rhan yn y rhaglen beilot, rhoddir ystyriaeth i'r canlynol o leiaf: darparu rhaglenni o fewn y meysydd peilot, gofynion y person cyfrifol fel y nodir yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 ([Adran 36\(2\)](#)), safonau'r Swyddfa Gartref ar gyfer ymyraethau tramgwyddwr cam-drin domestig¹¹ a'r Safon Parch¹².
- 6.4.8 Fe all fod yn briodol i'r tramgwyddwr fynychu mwy nag un rhaglen o dan ei amod gofynion cadarnhaol, er enghraifft ymyriad triniaeth alcohol ac yna rhaglen newid ymddygiad. Dylai heddluoedd ymgysylltu â'r sefydliad brysbennu i sicrhau bod asesiadau addasrwydd yn cael eu cynnal a bod y person cyfrifol ar gyfer pob darparwr rhaglen wedi'i nodi yn eu cais DAPO.
- 6.4.9 Lle na fu'n bosibl canfod rhaglen addas i'r tramgwyddwr ei fynychu, ni ddylai'r heddlu gynnwys yr argymhelliad hwn yn ei gais.
- 6.4.10 Pan wneir cais am DAPO ar ddiwedd achos troseddol, a bod gofyniad cadarnhaol yn cael ei ystyried, wrth roi gwybodaeth i gefnogi cais fe ddylai'r heddlu gysylltu â'r tîm brysbennu a fydd yn argymhell darparwr rhaglen.

¹¹ [Safonau ar gyfer ymyraethau cyflawnwr cam-drin domestig - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

¹² [Safon Parch \(Respect Standard\) Cyfrol 4 2022.pdf \(hubble-live-assets.s3.amazonaws.com\)](#)

6.4.11 Pan ofynnir am DAPO ar gael collfarn, dylai'r heddlu gysylltu â'i Wasanaeth Prawf lleol i benderfynu a ofynnwyd am Adroddiad Cyn-Ddedfryd ac, yn yr achosion hyn, a yw'r heddlu'n ystyried gofynion cadarnhaol. Dylai'r CPS ofyn i'r llys ystyried a fyddai'r amcanion yn cael eu cyflawni orau drwy'r DAPO neu fel rhan o orchymyn cymunedol neu ddedfryd wedi'i ohirio.

6.5 Monitro parhaus gan y person cyfrifol am ofyniad cadarnhaol

6.5.1 Mae gan y person cyfrifol ddyletswydd i hysbysu'r heddlu ynglŷn â chydymffurfiad neu ddiffyg cydymffurfiad y tramgwyddwr â'r gofyniad. Mae hyn p'un a wnaeth yr heddlu gais am y DAPO neu beidio. Rhaid i'r person cyfrifol adrodd am gydymffurfiad neu ddiffyg cydymffurfiad y tramgwyddwr â phrif swyddog yr ardal mae'r tramgwyddwr yn preswyllo ynddi ([Adran 36\(6\)](#)). Os yw'n ymddangos i'r person cyfrifol nad yw'r tramgwyddwr yn byw mewn unrhyw ardal heddlu (er enghraifft, os yw'n ymddangos bod y tramgwyddwr yn ddigartref), yna rhaid iddo roi gwybod i brif swyddog ardal yr heddlu lle mae'r llys a wnaeth y DAPO wedi'i leoli ynddo.

6.5.2 Yn ymarferol, mae'n debygol bydd y person cyfrifol yn hysbysu un pwynt cyswllt dynodedig (SPOC) neu swyddog mewn gofal (OIC) a awdurdodir gan brif swyddog yr heddlu i dderbyn yr wybodaeth hon ynglŷn â chydymffurfiad neu ddiffyg cydymffurfiad y tramgwyddwr â gofynion cadarnhaol. Bydd effeithlonrwydd y broses hon yn dibynnu ar rannu gwybodaeth amlasiantaethol effeithiol rhwng y llysoedd a'r heddlu ar bob cam o'r broses DAPO, yn enwedig pan fydd DAPO yn cael ei wneud neu ei amrywio.

6.5.3 At ddibenion y peilot, os yw'r tramgwyddwr wedi symud cyfeiriad i ardal heddlu sydd heb fod yn ardal y rhaglen beilot ond yn parhau i fod ar ofyniad cadarnhaol, rhaid i'r person cyfrifol anfon adroddiad cydymffurfio at yr heddlu gwreiddiol, yr heddlu sy'n cynnal y rhaglen beilot a'r heddlu newydd yn yr ardal y mae'r tramgwyddwr bellach yn byw ynddi.

7 Gofynion monitro electronig

7.1 Gall DAPO osod gofyniad monitro electronig neu "tagio" ar y tramgwyddwr. Mae'r galluoedd canlynol ar gael ar hyn o bryd drwy fonitro electronig:

- a) **Parthau eithrio** – Yn gwahardd y tramgwyddwr rhag mynd i mewn i leoliad neu gyfeiriad penodol.
- b) **Cyrffwy** – Yn gorfodi'r tramgwyddwr i fod mewn lleoliad penodol ar adegau penodol.

7.2 Bwriad unrhyw ofyniad monitro electronig yw monitro cydymffurfiaeth y tramgwyddwr â'r gofynion eraill a osodir gan y DAPO. Er enghraifft, os bydd y DAPO yn gwahardd y tramgwyddwr rhag dod o fewn pellter penodol i gartref y dioddefwr, yna gellid gosod gorfodi monitro electronig i fonitro a yw'r tramgwyddwr yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn trwy aros y tu allan i'r parth gwahardd.

7.3 Ni ellir gosod gofyniad monitro electronig yn yr amgylchiadau canlynol ([Adran 37](#)):

- a) yn absenoldeb y tramgwyddwr;
- b) heb gydsyniad unrhyw berson (ac eithrio'r tramgwyddwr) y mae'n ofynnol i'w gydweithrediad gyflawni'r gofyniad monitro electronig – gallai'r person hwn, er enghraifft, fod yn berchennog y safle lle mae'r tramgwyddwr yn byw os oes angen gosod uned monitro cartref yno.

7.4 Ni ellir gosod monitro electronig lle nad yw'r tramgwyddwr o unrhyw gartref sefydlog.

7.5 Ar gyfer y peilot, bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth Mechnïaeth (BIS) yn cynnal ymholiadau cam-drin domestig a diogelu plant (lle mae cyrffwy monitro electronig yn cael ei osod) ochr yn ochr â'r ymholiad caniatâd am ganiatâd i'r offer monitro electronig gael ei osod yn y cyfeiriad.

7.6 Pan fydd DAPO yn gosod gofyniad monitro electronig, rhaid i'r DAPO nodi'r person sydd i fod yn gyfrifol am fonitro'r gofyniad ([Adran 37\(6\)](#)). Y "person cyfrifol" ar gyfer monitro electronig yw darparwr technoleg yr offer monitro.

7.7 Mae'r "person cyfrifol" yn gyfrifol am fonitro, dilysu ac adrodd am doriadau drwy hysbysu'r heddlu. Ar ôl cadarnhad o dorri rheolau, bydd y person cyfrifol yn rhannu manylion y toriad gydag ystafell reoli'r heddlu perthnasol sy'n treialu'r rhaglen beilot mewn fformat safonol drwy e-bost.

7.8 Bydd angen i heddluoedd adolygu ac asesu pob rhybudd torri yr adroddwyd amdano ar gyfer y DAPO, penderfynu ar gamau gorfodi ac yn dilyn eu hymchwiliad hysbysu'r darparwr technoleg monitro electronig am statws y canlyniad.

7.9 Dylai'r heddlu hysbysu'r dioddefwr o gamau i'w cymryd ar ôl torri DAPO, a darparu diweddariadau, cyn unrhyw erlyniad. Os penderfynir i beidio â gweithredu ymhellach,

dylid hysbysu'r dioddefwr ynglŷn â hyn ynghyd ag eglurhad o'r penderfyniad. Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag ymgysylltu â'r dioddefwr yn dilyn toriad, mae'r Coleg Plismona wedi datblygu arweiniad pellach¹³.

- 7.10** Dylid ystyried diogelwch y dioddefwr bob amser ac unrhyw risg uwch o ganlyniad i dorri DAPO, a dylai'r heddlu ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu pryd i gysylltu â dioddefwyr. Mae'n rhaid i bersonél yr heddlu drafod a chytuno â'r dioddefwr pa mor aml caiff yr wybodaeth ddiweddaraf ei diweddarau, yn ogystal â sut yr hoffon nhw gael y diweddariadau hynny.¹⁴
- 7.11** Ni chaniateir gosod gofyniad monitro electronig am fwy na 12 mis ar y tro ([Adran 38 \(5\)](#)). Os ystyrir bod angen ymestyn gofyniad monitro electronig, gellir gwneud cais i'r llys i'r DAPO gael ei amrywio yn unol â hynny¹⁵. Gall y cais i ymestyn ddod i rym am fwy na 12 mis ar y tro yn unig er mwyn amddiffyn yr unigolyn rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig gan y tramgwyddwr.
- 7.12** Ni chaniateir gosod gofyniad monitro electronig o dan DAPO yn absenoldeb y tramgwyddwr ([Adran 37 \(2\)](#)).¹⁶ Ni fydd llysoedd yn gallu gosod monitro electronig heb i'r tramgwyddwr fynychu gwrandawriad yn bersonol. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r tramgwyddwr gadarnhau ei gyfeiriad cartref yn uniongyrchol i'r llys. Os nad yw'r tramgwyddwr yn bresennol o'i wirfodd, gall y llys gyhoeddi gwarant.
- 7.13** Fel gydag unrhyw ofyniad arall a ofynnir amdano mewn cais am DAPO, rhaid i'r llys fod yn fodlon bod monitro electronig yn angenrheidiol i amddiffyn y dioddefwr rhag cam-drin domestig, neu'r risg o gam-drin domestig gan y tramgwyddwr.
- 7.14** Pan fydd DAPO yn gosod gofyniad monitro electronig ar y tramgwyddwr, mae'r tramgwyddwr yn ddarostyngedig i rwymedigaethau penodol sy'n cael effaith fel unrhyw ofyniad arall a osodir gan y DAPO. Nodir y rhwymedigaethau hyn yn [Adran 37\(8\)](#), ac mae'n ofynnol i'r tramgwyddwr:
- a) Ufuddhau i wisgo cyfarpar monitro electronig (fel tag pigwrn) neu i'r cyfarpar hwn gael ei osod (fel uned monitro cartref) gan y darparwr monitro electronig;
 - b) Ufuddhau i'r cyfarpar monitro electronig gael ei archwilio neu ei atgyweirio gan y darparwr monitro electronig;
 - c) I beidio ag ymyrryd â'r cyfarpar monitro electronig, neu â gwaith y cyfarpar monitro electronig;

¹³ [Diogelwch a chymorth dioddefwyr | Coleg Plismona](#)

¹⁴ [Cod Dioddefwyr ar gyfer plismona | Coleg Plismona](#)

¹⁵ Darperir rhagor o wybodaeth am amrywio a rhyddhau DAPO yn adran 9.

¹⁶ Mewn llysoedd ynadon (ar gyfer ceisiadau a arweinir gan yr heddlu yn unig), rhaid i'r tramgwyddwr fynychu'r gwrandawriad yn bersonol. Mewn llysoedd teulu a sir ac ar gyfer DAPOau mewn achosion troseddol parhaus yn llysoedd ynadon neu goron, gall y tramgwyddwr fynychu trwy gyswllt fideo.

- d) Cymryd unrhyw gamau i gadw'r cyfarpar yn gweithio'n iawn, gan gynnwys cadw'r offer yn gyfrifol yn ôl y cyfarwyddyd.

7.15 Byddai methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn yn gyfystyr â thorri'r DAPO ([Adran 39](#)).

8 Gofynion hysbysu

8.1 Gofynion hysbysu

- 8.1.1** Mae tramgwyddwr sy'n ddarostyngedig i DAPO yn awtomatig yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu enw a chyfeiriad ([Adran 41](#)). Mae hyn yn ei wneud yn ofynnol iddyn nhw hysbysu'r heddlu o'u henw(au) (gan gynnwys unrhyw enwau eraill) a'u cyfeiriad cartref o fewn tri diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir y DAPO. Rhaid hysbysu unrhyw newidiadau i'r enw neu'r cyfeiriad i'r heddlu hefyd o fewn tri diwrnod i'r digwyddiad; mae hyn yn cynnwys hysbysu'r heddlu ynglŷn ag unrhyw enwau eraill y maen nhw'n eu defnyddio. Bydd gwybodaeth o'r fath yn helpu'r heddlu i fonitro cydymffurfiaeth â'r DAPO ac wrth reoli'r risgiau a berir gan y tramgwyddwr.
- 8.1.2** Os yw ymatebydd yn bresennol yn y llys yn y gwrandawriad, byddai'r cyfnod o dri diwrnod ar gyfer hysbysu am enw a chyfeiriad fel arfer yn dechrau ar y diwrnod y gwneir y gorchymyn, gan mai dyna pryd y byddai ymatebydd yn dod yn ymwybodol o'r gorchymyn gyntaf. Mae adran 39(2) yn darparu, ar gyfer gorchymynion a wnaed heb rybudd i'r ymatebydd, na ellir dweud bod y tramgwyddwr yn torri gorchymyn oni bai ei fod yn ymwybodol o fodolaeth y gorchymyn ar y pryd. Byddai hyn fel arfer yn digwydd pan fyddan nhw'n cael copi o'r gorchymyn.
- 8.1.3** Nid oes angen i heddluoedd ofyn am ofynion hysbysu yn eu cais.
- 8.1.4** Gall y tramgwyddwr hysbysu drwy fynychu gorsaf heddlu yn ei ardal leol a rhoi hysbysiad llafar i swyddog heddlu neu unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi at y pwrpas hwnnw gan y swyddog sy'n gyfrifol am yr orsaf.
- 8.1.5** Lle bydd yr heddlu wedi derbyn hysbysiad gan dramgwyddwr, rhaid iddyn nhw gydnabod hyn yn ysgrifenedig. Disgresiwn yr heddlu fydd yn penderfynu a yw'n briodol ar adeg yr hysbysiad i dynnu olion bysedd neu dynnu ffotograff y tramgwyddwr, neu'r ddau. Mae hyn yn arferadwy at bwrpas gwirio hunaniaeth y person.
- 8.1.6** Diffinnir "cyfeiriad cartref" fel ([Adran 56](#)):
- a) unig gyfeiriad neu brif breswylfa'r person yn y Deyrnas Unedig, neu
 - b) os nad oes gan y person breswylfa o'r fath –
 - i. cyfeiriad neu leoliad lle yn y Deyrnas Unedig lle gellir dod o hyd i'r person yn rheolaidd;
 - ii. os oes mwy nag un lle o'r fath, cyfeiriad neu leoliad p'un bynnag o'r lleoedd hynny y mae'r person yn eu dewis.
- 8.1.7** Bwriad y diffiniad hwn yw cynnwys ystod o amgylchiadau mewn perthynas â'r tramgwyddwr, fel os yw'n symud yn rheolaidd rhwng cyfeiriadau lluosog neu os yw'n

ddigartref. Os oes gan y tramgwyddwr gyfeiriad cartref yng Nghymru a Lloegr, rhaid iddo roi hysbysiad o hyn gan [\(Adran 42\)](#):

- a) fynychu gorsaf heddlu yn ardal yr heddlu lle mae'r cyfeiriad cartref wedi'i leoli, a
- b) rhoi hysbysiad llafar i swyddog heddlu, neu i unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi at y pwrpas hwnnw gan y swyddog sy'n gyfrifol am yr orsaf.

8.1.8 Os yw'r tramgwyddwr yn peidio â chael cyfeiriad cartref yng Nghymru a Lloegr, rhaid iddo roi hysbysiad gan:

- a) fynychu gorsaf heddlu yn ardal yr heddlu leol lle mae'r llys a wnaeth y DAPO mewn perthynas â'r tramgwyddwr wedi'i leoli, a
- b) rhoi hysbysiad llafar i swyddog heddlu, neu i unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi at y pwrpas hwnnw gan y swyddog sy'n gyfrifol am yr orsaf.

8.1.9 Pan fydd y tramgwyddwr yn rhoi hysbysiad, rhaid iddo, os gofynnir iddo wneud hynny gan y swyddog sy'n derbyn yr hysbysiad, ganiatáu i'r swyddog wirio ei hunaniaeth trwy dynnu ei olion bysedd a/neu ei lun [\(Adran 42\(5\)\)](#).

8.1.10 Ar gyfer rhaglen beilot y DAPN a'r DAPO, os yw tramgwyddwr yn symud tu allan i ardal y llu treialu, rhaid i'r tramgwyddwr hysbysu'r heddlu yn yr ardal y bydd yn symud iddi o'r newid cyfeiriad cartref hwn. Yna, dylai'r heddlu newydd hysbysu heddlu'r ardal wreiddiol, a heddlu'r ardal sy'n rhedeg y rhaglen beilot bod tramgwyddwr a chanddo DAPO wedi symud i'r ardal.

8.1.11 Dylai'r llu newydd barhau i hysbysu ardal wreiddiol yr heddlu sy'n treialu'r rhaglen beilot o unrhyw newidiadau mewn enw neu gyfeiriad yn y dyfodol gan ddefnyddio'r templed hwn. Mae hyn yn bwysig pe bai angen amrywio'r gorchymyn, y gellir ei ond ei wneud mewn llysoedd treialu'r rhaglen beilot, ac ar gyfer cysondeb wrth werthuso'r DAPO.

8.1.12 Unwaith bydd y tramgwyddwr wedi hysbysu, rhaid cydnabod hyn yn ysgrifenedig.

8.1.13 Nid yw'r gofynion hysbysu yn gymwys pan fydd y tramgwyddwr eisoes yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu [\(Adran 41\)](#):

- a) a orfodwyd gan DAPO arall; neu
- b) sydd o dan [Adran 2 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003](#); neu
- c) sydd o dan Adran [9 Deddf Diogelu Stelcio 2019](#).

8.1.14 Os yw'r tramgwyddwr yn peidio â bod yn ddarostyngedig i unrhyw un o'r gofynion hysbysu hynny cyn i DAPO ddod i ben, y dyddiad cau ar gyfer hysbysu fyddai tri diwrnod yn dechrau gyda'r diwrnod mae'r tramgwyddwr yn peidio â bod yn ddarostyngedig i'r gofynion hysbysu eraill (h.y. yn dechrau gyda'r diwrnod y daw'r gorchymyn neu'r gorchymynion eraill i ben) [\(Adran 41\)](#).

8.1.15 Pan fydd DAPO yn gosod gofyniad cadarnhaol ar y tramgwyddwr, yn ychwanegol at y gofynion hysbysu uchod, bydd y tramgwyddwr yn ddarostyngedig i rwymedigaethau i hysbysu'r person sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth gyda'r gofyniad hwnnw o unrhyw newidiadau i'w cyfeiriad cartref, os yw'n peidio â chael cyfeiriad cartref, a/neu unrhyw effaith y gallai hyn ei gael ar fynychu'r rhaglen ([Adran 36\(7\)](#)). Rhaid i'r person cyfrifol ffeilio ei adroddiad cydymffurfiaeth a diffyg cydymffurfiaeth â'r heddlu ([Adran 36\(5\)](#)).

8.1.16 Yn seiliedig ar y fframwaith asesu ac adrodd, mae'r personau cyfrifol yn cael eu tywys i nodi yn eu hadroddiad i'r heddlu a fyddai'n rhesymol i'r tramgwyddwr fynychu'r rhaglen ymyrraeth o'i gyfeiriad newydd. Bydd y person cyfrifol yn dilyn meini prawf penodedig i benderfynu ar yr achosion lle bydd angen iddyn nhw gysylltu â'r heddlu. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn cael effaith fel unrhyw ofyniad arall a osodir gan y DAPO.

8.2 Troseddau'n ymwneud â hysbysiad

8.2.1 Mae'n drosedd os yw'r tramgwyddwr yn methu, heb esgus rhesymol, i gydymffurfio â'r gofynion hysbysu neu os yw'n rhoi gwybodaeth mae'n gwybod sy'n ffug o ran ystyr cydymffurfio â'r gofynion hynny.

8.2.2 Mae'n drosedd os yw'r tramgwyddwr yn methu, heb esgus rhesymol, i ganiatáu i'r swyddog sy'n derbyn ei hysbysiad wirio ei hunaniaeth trwy dynnu ei olion bysedd a/neu ei ffotograff ([Adran 43](#)).

8.2.3 Enghraifft o esgus rhesymol fyddai pe bai'r tramgwyddwr yn y carchar, math arall o ddalfa neu ysbyty. Os yw'r PNC yn dangos bod yr ymatebydd yn y ddalfa drwy gydol y cyfnod hysbysu ac felly'n methu â mynychu gorsaf heddlu, ni fydd y tramgwyddwr yn cael ei arestio am dorri'r gofynion hysbysu. Mae HMPPS yn rhannu gwybodaeth am ryddhau gyda'r heddlu yn ddyddiol. Felly, pan fydd person sy'n destun DAPO tra yn y carchar yn cael ei ryddhau o'r carchar, gall yr heddlu reoli'r gofynion hysbysu ar gyfer yr ymatebydd yn briodol.

8.2.4 Gall y gosb uchaf am dorri'r gofyniad hysbysu, yn dilyn collfarn ddiannod, ddwyn dirwy, neu'r uchafswm o garchar sydd ar gael yn y llys ynadon, neu'r ddau, neu bum mlynedd o garchar, neu ddirwy, neu'r ddau, ar gollfarn ar dditiad.

8.2.5 Pan fydd y tramgwyddwr yn methu â chydymffurfio â'r gofynion hysbysu, heb esgus rhesymol, dim ond unwaith y gellir ei erlyn am yr un cyfnod o ddiffyg cydymffurfio ([Adran 43](#)).

9 Amrywio neu ryddhau Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)

9.1 Gellir cyflwyno cais i amrywio DAPO, gan gynnwys cais i ymestyn gofyniad monitro electronig gan [\(Adran 44 \(1-3\)\)](#):

- a) Y person y gwnaed y gorchymyn ar ei gyfer;
- b) Y person y gwnaed y gorchymyn yn ei erbyn, y tramgwyddwr;
- c) Lle gwnaed y gorchymyn [\(Adran 28\)](#), y person a wnaeth gais am y gorchymyn;
- d) Prif swyddog heddlu'r llu a gynhelir ar gyfer unrhyw ardal heddlu y mae'r tramgwyddwr yn byw ynddi;
- e) Prif swyddog heddlu unrhyw heddlu arall sy'n cael ei gynnal ar gyfer ardal heddlu sy'n credu bod y tramgwyddwr yn yr ardal heddlu honno neu'n bwriadu dod ati. Ar gyfer y rhaglen beilot bydd hyn ond yn berthnasol pan fydd y tramgwyddwr yn byw mewn ardal heddlu sy'n cynnal y rhaglen beilot gan mai dim ond prif swyddog ardal heddlu sy'n gallu gwneud cais i amrywio neu ryddhau'r DAPO.

9.2 Ar gyfer y rhaglen beilot, dim ond prif swyddog yr heddlu ar gyfer yr heddluoedd peilot all wneud cais i amrywio'r gorchymyn, hyd yn oed os yw'r tramgwyddwr yn byw mewn ardal heddlu arall. Os, yn yr achosion hyn, yw'r heddlu lle mae'r tramgwyddwr yn byw yn dymuno amrywio'r gorchymyn, rhaid iddo gysylltu â'r heddlu treialu a wnaeth gais yn wreiddiol am y DAPO.

9.3 Gall y BTP a'r MDP wneud cais i amrywio'r gorchymyn [\(Adran 44\(3\)\(c\)\)](#). Fodd bynnag, rhaid i BTP a MDP ystyried a chydgyssylltu â'r heddlu lle mae'r tramgwyddwr yn byw mewn perthynas ag unrhyw gais i amrywio.

9.4 Rhaid gwneud y cais i amrywio neu ryddhau'r DAPO i'r llys priodol, sydd yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau y gwnaed y DAPO yn wreiddiol. Mae hyn yn ddarostyngedig i rai eithriadau [\(Adran 35 \(1-3\)\)](#).

9.5 Gall y llys hefyd amrywio neu ryddhau DAPO o'i wirfodd [\(Adran 44\(2\)\(b\)\)](#) mewn unrhyw achos lle gallai wneud DAPO o'i wirfodd ei hun¹⁷ [\(Adran 31\)](#).

¹⁷ [Mae Adran 29 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn](#) datgan y gall y llys wneud DAPO o'i fenter ei hun yn ystod achosion teuluol, troseddol neu sifil eraill. Darperir rhagor o wybodaeth am y llwybrau eraill i gael DAPO yn Atodiad A.

- 9.6 Mae rheolau'r llys yn amlinellu pwy ddylai gyflwyno'r gorchymyn. Mae'r Rheolau yn wahanol yn dibynnu ar p'un a wnaed y gorchymyn gwreiddiol mewn achos troseddol neu sifil. Mewn achos sifil sy'n digwydd yn y llys ynadon, yr heddlu sy'n gyfrifol am gyflwyno'r gorchymyn i'r tramgwyddwr.
- 9.7 Lle cafodd DAPO ei amrywio heb rybudd, rhaid ei gyflwyno i'r tramgwyddwr cyn y gellir ei orfodi.
- 9.8 Ni fydd tramgwyddwr sy'n torri DAPO amrywiol wedi cyflawni trosedd oni bai a hyd nes y bydd yn ymwybodol o'r amrywiad a wnaed, ac, os na fyddai ei ymddygiad, yn absenoldeb yr amrywiad, wedi bod yn drosedd ([Adran 45\(9\)](#)). Darperir rhagor o wybodaeth ynglŷn â thorri DAPO yn adran 11.
- 9.9 Lle cafodd gorchymyn ei wneud mewn achos troseddol (llysoedd y goron neu ynadon), a gwneir cais i'w amrywio, bydd ei gyflwyno yn dibynnu ar bwy wnaeth y cais (Rheol 31.5 y Weithdrefn Droseddol):
- Pan fydd yr heddlu'n gwneud y cais, byddant yn ei gyflwyno ar y llys, y tramgwyddwr a'r dioddefwr;
 - Pan fydd y tramgwyddwr yn gwneud y cais, bydd yn cyflwyno'r cais ar y llys a'r heddlu, a bydd y llys yn ei gyflwyno i'r dioddefwr; a
 - Phan fydd y dioddefwr yn gwneud y cais, bydd yn ei gyflwyno i'r llys a bydd y llys yn ei gyflwyno i'r tramgwyddwr a'r heddlu.
- 9.10 Pan fydd gorchymyn wedi cael ei wneud ar gais gan yr heddlu yn y llysoedd ynadon, a gwneir cais i'w amrywio, bydd ei gyflwyno yn dibynnu ar bwy waeth y cais (Rheol Llysoedd Ynadon 21):
- Pan fydd yr heddlu'n gwneud y cais, byddan nhw'n ei gyflwyno ar y llys, y tramgwyddwr a'r dioddefwr (neu riant y dioddefwr os yw'r dioddefwr o dan 18 oed)
 - Pan fydd y tramgwyddwr yn gwneud y cais, bydd yn cyflwyno'r cais ar y llys a'r heddlu, a bydd yr heddlu yn ei gyflwyno i'r dioddefwr (neu riant y dioddefwr os yw'r dioddefwr o dan 18 oed); a
 - Phan fydd y dioddefwr yn gwneud y cais, bydd y dioddefwr yn ei gyflwyno ar y llys a'r heddlu a bydd yr heddlu yn ei gyflwyno ar y tramgwyddwr.
- 9.11 Wrth benderfynu a ddylid amrywio neu ryddhau DAPO, rhaid i'r llys glywed gan brif swyddog yr heddlu, os yw'n dymuno cael ei glywed:
- a) pwy wnaeth gais am y DAPO;
 - b) ar gyfer ardal yr heddlu lle mae'r tramgwyddwr yn byw, neu lle mae'n credu bod y tramgwyddwr yn neu'n bwriadu dod iddi, hyd yn oed os na wnaeth gais yn wreiddiol am y DAPO.

- 9.12 Rhaid i'r llys glywed gan y dioddefwr mewn achosion lle mae'r dioddefwr yn ceisio cyflawni'r DAPO, dileu unrhyw ofynion, neu wneud unrhyw un o'r gofynion yn llai beichus ar y tramgwyddwr [\(Adran 44 \(4\)\(b\)\)](#).
- 9.13 Pan fydd cais i amrywio DAPO yn cael ei gymeradwyo mewn llys teulu, bydd yr heddlu'n derbyn hysbysiad i fewnflwch dynodedig sy'n manylu ar amodau'r DAPO yn dilyn yr amrywiad. Yna disgwylir i'r heddlu ddiweddarau'r PNC yn unol â hynny i adlewyrchu'r amodau DAPO newydd.
- 9.14 Mae'r darpariaethau hyn yn golygu, pan fyddan nhw'n dymuno gwneud hynny, bydd yr heddlu'n dal i allu cyflwyno tystiolaeth berthnasol neu wybodaeth berthnasol a allai fod ganddyn nhw ynghylch lefel y risg a berir i'r dioddefwr gan y tramgwyddwr neu natur ei ymddygiad camdriniol, hyd yn oed pan nad yw'r heddlu wedi bod yn rhan o'r achos blaenorol (er enghraifft, os nad nhw oedd y parti wnaeth gais am y DAPO). Darperir rhagor o wybodaeth am y llwybrau eraill i gael DAPO yn Atodiad A.
- 9.15 Disgwylir i'r heddlu ymgysylltu â'r dioddefwr wrth wneud cais i'r DAPO gael ei amrywio neu ei ollwng, neu pan fydd yn dymuno cael ei glywed gan y llys mewn perthynas â chais a wneir gan berson arall. Mae hyn ochr yn ochr â cheisio barn gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol os ydynt yn cefnogi'r dioddefwr.
- 9.16 Pan yw'r tramgwyddwr yn destun amodau mechnïaeth, mewn unrhyw achos lle mae amrywiad neu ollwng DAPO, disgwylir i'r heddlu ymgysylltu â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r DAPO yn cael eu cynnwys yn eu cynllunio rheoli risg ar gyfer y tramgwyddwr.
- 9.17 Os yw'r llys yn fodlon bod angen amrywio'r DAPO i ddiogelu'r person rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig, gellir amrywio'r DAPO i:
- a) Osod gofynion ychwanegol ar y tramgwyddwr; neu
 - b) Ymestyn hyd y DAPO, neu hyd y gofynion penodol.
- 9.18 Fodd bynnag, ni chaiff y llys ymestyn y cyfnod y mae gofyniad monitro electronig yn effeithio arno gan fwy na 12 mis ar y tro.
- 9.19 Gall y llys ddileu gofyniad penodol yn unig, neu wneud y gofyniad hwnnw'n llai beichus ar y tramgwyddwr, os yw'n fodlon nad yw'r gofyniad bellach yn angenrheidiol i ddiogelu'r person rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig neu gyfaddawdu ei ddiogelwch. Dylai'r heddlu ystyried asesiadau risg wrth ddileu neu amrywio gofynion.
- 9.20 Os yw'n ymddangos i'r llys nad yw unrhyw amodau sy'n angenrheidiol i osod gofyniad yn cael eu bodloni mwyach, ni chaiff y llys ymestyn y gofyniad hwnnw a rhaid iddo ddileu'r gofyniad hwnnw. Dylai'r heddlu ystyried asesiadau risg wrth gael gwared ar ofynion.
- 9.21 Gall y llys ollwng DAPO dim ond os yw'n fodlon nad yw'r DAPO bellach yn angenrheidiol i amddiffyn yr unigolyn rhag cam-drin domestig neu'r risg o gam-drin domestig neu gyfaddawdu ei ddiogelwch.

9.22 Gellir amrywio DAPO heb rybudd mewn amgylchiadau eithriadol neu frys ([Adran 34 \(3\)](#)). Rhaid rhoi cyfle i'r tramgwyddwr cyn gynted ag yw'n gyfleus ac yn gyfiawn i gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r amrywiad mewn gwrandawriad dychwelyd ar rybudd ([Adran 44\(7\)](#)). Ceir mwy o wybodaeth am wneud DAPO heb rybudd yn adran 4.3.

10 Monitro cydymffurfiaeth â Gorchymyn Diogelu Cam-drin Domestig (DAPO)

10.1 Y person cyfrifol

- 10.1.1 Pan fydd DAPO yn gosod gofyniad ar y tramgwyddwr, rhaid i'r DAPO nodi'r person sydd i fod yn gyfrifol am oruchwyllo cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwnnw. Gweler [Adran 36\(2\)](#) o'r Ddeddf ac adrannau 6 a 7 o'r ddogfen ganllaw hon.
- 10.1.2 Ar gyfer monitro electronig, y person cyfrifol yw'r darparwr technoleg. Gweler Adran 7.6 am ragor o fanylion am y person cyfrifol am fonitro electronig.
- 10.1.3 Ar gyfer gofynion cadarnhaol, y person cyfrifol yw darparwr y rhaglen. Gweler Adran 6.3.4 am ragor o fanylion am y person cyfrifol am ofynion cadarnhaol.

10.2 Ceisiadau am Orchmynion Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO) dan arweiniad dioddefwyr/trydydd parti

- 10.2.1 Bydd yr heddlu yn gyfrifol am ymateb i dorri unrhyw orchmynion a wnaed yn y llysoedd teulu neu sifil. Mae nifer o resymau pam y gall dioddefwr ddewis gwneud cais ei hun am DAPO yn hytrach na mynd at yr heddlu neu berson neu sefydliad arall. Er enghraifft, efallai na fyddan nhw am gynnwys yr heddlu yn eu hachos, neu efallai y byddan nhw'n dymuno bod â rheolaeth dros sicrhau eu diogelwch eu hunain.

10.3 Hysbysiadau gan y teulu a'r llys sifil

- 10.3.1 Ar gyfer DAPOau a wneir yn y llysoedd teulu a sifil, efallai na fydd yr heddlu yn rhan o'r achos llys. Er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n ymwybodol o DAPOau a wnaed yn y llysoedd teulu a sifil, anfonir hysbysiad cynnar yn uniongyrchol gan y llys teulu a'r llys sifil sy'n cynnal y rhaglen beilot i'r heddlu sy'n cynnal y rhaglen beilot i'w hysbysu bod DAPO wedi'i wneud. Bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei wneud cyn i'r gorchymyn gael ei gyflwyno.
- 10.3.2 Ar ôl derbyn yr hysbysiad cynnar, disgwylir i'r heddlu brosesu manylion y DAPO, gan sicrhau bod manylion y DAPO yn cael eu lanlwytho i'r PNC.
- 10.3.3 Yna anfonir ail hysbysiad trwy'r un broses i hysbysu heddlu'r rhaglen bod y gorchymyn wedi'i gyflwyno. Yna, dylai'r heddlu ddiweddarau'r PNC gyda gwybodaeth am y gwasanaeth. Ar gyfer rhaglen beilot y DAPO, bydd y broses yn cynnwys e-bost a anfonir o'r llysoedd i gyfeiriad e-bost y cytunwyd arno ymlaen llaw ym mhob heddlu sy'n cynnal y rhaglen beilot.

10.4 Rheoli Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig yn barhaus (DAPO)

- 10.4.1** Rhaid i gofnodion PNC aros yn gyfredol mewn perthynas â DAPOau er mwyn galluogi holl ddefnyddwyr y PNC i gael mynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf am dramgwyddwr sydd â DAPO. Bydd hyn yn cynorthwyo i fonitro cydymffurfiaeth â'r gorchymyn a chymryd camau priodol ac amserol mewn ymateb i unrhyw dor-rheolau.
- 10.4.2** Mae'r heddlu yn gyfrifol am orfodi – ac ymateb i achos o dorri – pob DAPO, p'un a wnaeth yr heddlu gais am y DAPO hwnnw neu beidio. Argymhellir arfer gorau i ardaloedd peilot sefydlu timau DAPO pwrpasol i reoli'r gorchymynion, gan gynnwys derbyn a phrosesu unrhyw hysbysiadau sy'n ymwneud â'r DAPO, cynnal cofnodion cronfa ddata'r heddlu, monitro cydymffurfiaeth, ymchwilio ac ymateb i doriadau, diweddarau asesuadau risg, ac adolygu cynllunio diogelwch i'r dioddefwr fel y bo'n briodol. I gael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r disgwyliadau sydd ar yr heddlu wrth orfodi DAPOau na wnaethon nhw geisio amdanynt, gweler Atodiad A.
- 10.4.3** Mae rheolaeth barhaus DAPO a'r risg a berir i'r dioddefwr a'i blant yn gofyn am ddull amlasiantaeth rhagweithiol ar bob cam. Ym mhob achos, dylai'r heddlu ystyried atgyfeiriadau ar fforymau amlasiantaethol fel cyfeirio'r dioddefwr at MARAC ac ymgysylltu â gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol.
- 10.4.4** Ar gyfer y rhaglen beilot, i wneud cais DAPO, rhaid i'r tramgwyddwr fod yn byw yn yr ardal beilot, ond nid yw'n ofynnol i'r dioddefwr breswyllo o fewn yr ardal heddlu lle bydd y rhaglen beilot yn cael ei chynnal. Os bydd y tramgwyddwr, yn ystod cyfnod y DAPO, yn symud tu allan i ardal beilot yr heddlu, bydd angen i'r ddwy ardal heddlu gysylltu'n agos trwy gydol cyfnod y DAPO i rannu gwybodaeth berthnasol a nodi unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â sicrhau nad oes dyblygu gweithgarwch wrth reoli'r tramgwyddwr. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y dioddefwr yn parhau i gael ei ddiogelu ble bynnag fyddan nhw, a bod yr heddlu yn y ddwy ardal heddlu yn ymwybodol o'r DAPO ac yn barod i fynd i'r afael ag unrhyw achosion o dorri rheolau a allai ddigwydd. Mae hyn waeth beth fo'r gwasgariad daearyddol rhwng y ddwy ardal heddlu.
- 10.4.5** Ceir ffactorau risg ychwanegol y dylid eu hystyried wrth reoli testun DAPO, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fynediad y tramgwyddwr at arfau tanio cyfreithiol, ei gymhwysedd gydag arfau tanio neu arfau eraill, anawsterau iechyd meddwl, neu ddibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol. Dylai'r heddlu gynnal ymholiadau o'r fath ag sy'n angenrheidiol i nodi unrhyw ffactorau risg ychwanegol ac fe ddylen nhw gynnwys y rhain yn eu cynlluniau rheoli risg.
- 10.4.6** I gael arweiniad pellach, dylai'r heddlu gyfeirio at yr egwyddorion a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona ar nodi, asesu a rheoli cam-drin domestig cyfresol neu a allai fod yn beryglus a thramgwyddwyr stelcio¹⁸.

¹⁸ [Cam-drin domestig | Coleg Plismona](#)

10.5 Cynllunio ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig yn dod i ben (DAPO)

- 10.5.1** Dylai'r heddlu ystyried ymhell cyn dyddiad dod i ben DAPO os oes angen iddyn nhw wneud cais i amrywio'r DAPO er mwyn ymestyn ei hyd – er enghraifft, os yw'r DAPO i fod dod i ben ond mae'r heddlu'n ystyried bod y tramgwyddwr yn dal i beri risg i'r dioddefwr. Ceir mwy o wybodaeth ynglŷn ag amrywio DAPO yn adran 9.
- 10.5.2** Gall yr adeg pan fydd DAPO yn dod i ben fod yn gyfnod ansicr i'r dioddefwr. Yn ogystal ag adolygu'r cynllunio diogelwch presennol gyda'r dioddefwr ar y cam hwn, dylai'r heddlu roi gwybodaeth i'r dioddefwr am gymorth cam-drin domestig arbenigol lleol fel IDVA neu wasanaethau cymunedol eraill, os nad yw'r berthynas hon wedi'i sefydlu eisoes. Mae mwy o wybodaeth am gefnogi'r dioddefwr i'w gweld yn Atodiad D.

11 Torri Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)

11.1 Torri Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)

11.1.1 Mae'n drosedd i dramgwyddwr dorri DAPO. Gallai torri rheolau olygu gwneud unrhyw beth a waherddir gan y DAPO neu fethu, heb esgus rhesymol, i wneud rhywbeth sy'n ofynnol gan y DAPO.

11.1.2 Ymhlith y troseddau sy'n ymwneud â DAPO mae:

- a) torri unrhyw ofyniad o DAPO heb esgus rhesymol ([Adran 39 \(1\)](#));
- b) methu â chydymffurfio â gofynion hysbysu heb esgus rhesymol neu roi gwybodaeth ffug i'r heddlu yn fwriadol ([Adran 43 \(1-2\)](#));
- c) methu â chadw mewn cysylltiad â'r person sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaid â'r gofyniad a/neu roi gwybod iddyn nhw am newid cyfeiriad cartref neu ddiffyg hynny ([Adran 36\(7\)](#));
- d) methu â chydymffurfio â rhwymedigaethau mewn perthynas â gofynion monitro electronig ([Adran 37\(8\)](#)).

11.1.3 Mewn achosion lle mae'r tramgwyddwr yn ddarostyngedig i reolaeth prawf mewn perthynas â throedd arall, a bod achos o dorri DAPO yn digwydd, mae'r heddlu'n gyfrifol am hysbysu'r gwasanaeth prawf. Dylai'r wybodaeth hon fod yn ddwyochrog.

11.1.4 Mae'n hanfodol er mwyn cynnal hyder y dioddefwr ac effeithiolrwydd y drefn gorchymyn diogelu yr ymchwiler yn drwyadl i bob achos o dorri amodau yr adroddir amdano, a bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn modd amserol. Dylid arestio ar y cyfle cyntaf, gan y gallai unrhyw oedi gynyddu'r risg i'r dioddefwr ac felly danseilio pwrpas y DAPO.

11.1.5 Lle cyflwynwyd y DAPO yn erbyn y tramgwyddwr yn ddirybudd, dim ond mewn perthynas ag ymddygiad a ddigwyddodd ar adeg pan oedd y tramgwyddwr yn ymwybodol o fodolaeth y DAPO ([Adran 39\(2\)](#)) mae'r tramgwyddwr yn cyflawni trosedd. Nid yw'r tramgwyddwr yn cyflawni trosedd oni bai a hyd nes y bydd yn ymwybodol o wneud yr amrywiad, ac os na fyddai ei ymddygiad wedi bod yn dramgwydd yn absenoldeb yr amrywiad ([Adrannau 45\(8-9\)](#)).

11.1.6 Os yw'r tramgwyddwr yn methu â chydymffurfio â'r gofynion hysbysu ([Adran 41](#)), heb esgus rhesymol, mae'n drosedd. Os yw'r tramgwyddwr yn parhau i fethu â chydymffurfio dros gyfnod o amser, dim ond unwaith y gellir erlyn y tramgwyddwr am yr un methiant i hysbysu ([Adran 43 \(4-6\)](#)).

11.1.7 Yn rhinwedd [Adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol](#), caiff heddw as arestio heb warant os yw'r tramgwyddwr ar fin torri'r DAPO neu os yw yn y weithred o

dorri'r DAPO ([Adran 40\(9\)](#)) a bod gan y swyddog heddlu sail resymol dros gredu bod angen arestio am y rhesymau a amlinellir yn [Adran 24\(5\) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol](#), er enghraifft, i atal y tramgwyddwr rhag achosi rhywfaint o anaf iddo'i hun neu i eraill neu i amddiffyn plentyn neu berson arall sy'n agored i niwed rhag y tramgwyddwr.

11.1.8 Y gosb fwyaf am dorri DAPO yw'r uchafswm o garchar sydd ar gael yn y llys ynadon, dirwy, neu'r ddau, ar gollfarn ddiannod; neu bum mlynedd o garchar, dirwy, neu'r ddau, ar gollfarn ar dditiad ([Adran 39 \(5\)](#)).

11.1.9 Os yw person yn euog o dorri DAPO ([Adrannau 39 \(6-7\)](#)), darparwch nad yw'n agored i'r llys, nac i'r llys gwasanaeth yn y drefn honno, wneud gorchymyn am ryddhad amodol.

11.1.10 Pan fydd heddluoedd nad ydynt yn treialu yn dod yn ymwybodol o dorri DAPO o fewn eu hardal heddlu, rhaid iddyn nhw sicrhau bod yr heddlu peilot yn derbyn y manylion perthnasol i gynorthwyo'r heddlu sy'n treialu yn eu penderfyniad ar sut i ymateb.

11.2 Torri Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig a arweinir gan ddioddefwyr neu drydydd parti (DAPO)

11.2.1 Mae'r heddlu yn gyfrifol am ymateb i achos o dorri unrhyw DAPO, p'un a wnaeth yr heddlu gais am y DAPO hwnnw neu beidio. Mae torri DAPO yn drosedd, waeth pa lys bynnag y cafodd ei wneud ynddo neu pwy gyflwynodd y cais gwreiddiol. Disgwylir i'r heddlu drin pob achos o dorri DAPO yr adroddwyd amdano gyda difrifoldeb cyfartal, p'un a yw'n DAPO dan arweiniad yr heddlu neu'n un na chafodd ei arwain gan yr heddlu. Mae'n rhaid i bob heddlu a llys yn Nghymru a Lloegr, p'un a ydyn nhw'n cymryd rhan yn y rhaglen beilot neu beidio, ymateb i doriad yr adroddir amdano. Felly, rhaid i heddluoedd sydd heb fod yn rhan o'r rhaglen beilot hysbysu'r lluo peilot perthnasol ar gyfer ei drin ymhellach.

11.2.2 Os nad yw heddluoedd peilot wedi derbyn hysbysiad cynnar (gweler adran 10.3.1) i'w hysbysu bod DAPO nad yw'n cael ei arwain gan yr heddlu yn cael ei wneud a/neu ei gyflwyno, ar ôl dod yn ymwybodol o doriad neu doriad posibl o DAPO, dylai lluoedd peilot geisio cael copi o'r gorchymyn ar unwaith. Bydd effeithlonrwydd y broses hon yn dibynnu ar rannu gwybodaeth amlasiantaethol effeithiol rhwng y llysoedd a'r heddlu ar bob cam o'r broses DAPO, yn enwedig pan fydd DAPO yn cael ei wneud neu ei amrywio.

11.2.3 I gael rhagor o wybodaeth am y disgwyliadau ar yr heddlu wrth orfodi DAPOau nad oedden nhw'n gwneud cais amdanyn nhw, gweler Atodiad A.

11.3 Delio â thorri amodau fel dirmyg sifil llys

11.3.1 Gellir delio â thorri DAPO fel dirmyg sifil llys. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol i orchymyn a wneir gan lys ynadon nad oes ganddo'r pŵer i gosbi am ddirmyg sifil. Felly, dylid ymdrin â thorri gorchymynion llysoedd ynadon bob amser trwy arestio a chyhuddo am y drosedd.

- 11.3.2 Lle gwnaed y DAPO gan lys heblaw llys ynadon, y gosb uchaf am ddirmyg llys sifil yn gyffredinol yw hyd at ddwy flynedd o garchar, neu ddirwy, neu'r ddau - bydd y gosb sydd ar gael yn amrywio yn dibynnu ar hynafedd y barnwr a wnaeth y DAPO.
- 11.3.3 Os nad yw'r heddlu a'r CPS yn mynd ar drywydd cyhuddiadau troseddol ar ôl torri DAPO, efallai bydd y dioddefwr a phartïon eraill i'r achos (e.e. gwasanaethau cymdeithasol) yn gallu dwyn achos yn erbyn y tramgwyddwr fel dirmyg llys mewn achos sifil.
- 11.3.4 Gall y dioddefwr, y person a wnaeth gais am y DAPO annibynnol, neu unrhyw un arall sydd â chaniatâd y llys wneud cais i'r llys a wnaeth y DAPO am warant arestio os ydyn nhw o'r farn bod y tramgwyddwr wedi torri'r DAPO neu fel arall mewn dirmyg llys mewn perthynas â'r DAPO ([Adran 40 \(3\)](#)). Unwaith bydd y tramgwyddwr wedi cael ei arestio a'i ddwyn gerbron y llys, gall y llys naill ai ddelio â dirmyg llys yno neu roi'r tramgwyddwr yn y ddalfa, p'un a yw yn y ddalfa neu ar fechnïaeth, er mwyn i'r achos a drafodir gael ei drafod yn ddiweddarach. Efallai bydd hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau presenoldeb y tramgwyddwr yng ngwrandawriad y trafodion traddodi.
- 11.3.5 Gall delio â thorri DAPO fel mater sifil fod yn briodol mewn achosion lle nad yw'r dioddefwr yn dymuno i'r tramgwyddwr gael ei droseddu, er enghraifft os yw'n dymuno parhau â'i berthynas â'r tramgwyddwr.
- 11.3.6 Pan fod y tramgwyddwr yn euog o dorri DAPO mewn perthynas ag unrhyw ymddygiad, ni ellir cosbi'r un ymddygiad hwnnw fel dirmyg llys ([Adrannau 39 \(3\)](#)).
- 11.3.7 Lle bydd y tramgwyddwr wedi ei ganfod o fod mewn dirmyg llys mewn perthynas â DAPO mewn perthynas ag unrhyw ymddygiad, ni ellir ddyfarnu'n euog o dorri DAPO mewn perthynas â'r un ymddygiad ([Adran 39 \(4\)](#)).

11.4 Toriad yn digwydd y tu allan i Gymru a Lloegr

- 11.4.1 Mae [Rhan 3](#) o'r Ddeddf yn ymestyn i Gymru a Lloegr yn unig. Mae hyn yn golygu nad yw'n ffurfio rhan o gyfraith yr Alban, Gogledd Iwerddon nac unrhyw wlad arall ac nad yw'n gallu cynhyrchu unrhyw effaith gyfreithiol tu allan i Gymru a Lloegr.
- 11.4.2 Fodd bynnag, mae [Adran 38](#) yn datgan bod gofyniad a osodir gan DAPO yn cael effaith ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig oni bai ei fod wedi'i gyfyngu'n benodol i ardal benodol. Mae hyn yn golygu y bydd gweithred neu ymddygiad sy'n torri DAPO, hyd yn oed os caiff ei chyflawni yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, yn dramgwydd yng Nghymru a Lloegr.
- 11.4.3 Os bydd toriad yn digwydd y tu allan i Gymru a Lloegr, mae disgwyl i'r heddlu benderfynu fesul achos y strategaeth briodol i ddod o hyd i'r tramgwyddwr a delio ag ef hi yn unol ag [Adran 137 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994](#).

12 Apeliadau

12.1 Darperir rhagor o wybodaeth am y llwybrau eraill i gael DAPO yn Atodiad A. Y bwriad yw cynorthwyo'r heddlu i ddeall eu hawliau apêl mewn perthynas â DAPOau a wneir ar gais gan barti arall neu gan y llys fel rhan o achosion eraill.

12.2 Crynodeb o'r amgylchiadau lle gellir apelio yn erbyn DAPO:

Person a all apelio	DAPO o dan Adran 28 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 – gan gynnwys yn dilyn rhoi DAPN	DAPO wedi'i wneud o wirfodd y llys o dan Adran 31 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 fel rhan o achosion eraill	DAPO o dan Adran 44 Deddf Cam-drin Domestig 2021
Y dioddefwr	✓	Gweler troednodyn ¹⁹	✓
Y person a wnaeth y cais (os yw'n wahanol)	✓	Amh	✓
Y diffynnydd / tramgwyddwr	✓ (os yw'r DAPO yn cael ei wneud)	✓	✓
Prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal yr heddlu lle mae'r tramgwyddwr yn byw, neu lle mae'n credu bod y tramgwyddwr yn byw neu'n bwriadu dod iddi. Sylwer, ar gyfer y rhaglen beilot, bydd hyn ond yn berthnasol pan fydd y tramgwyddwr yn byw mewn ardal treialu'r heddlu.	X	X	✓

¹⁹ [Nid yw Deddf Cam-drin Domestig 2021](#) yn nodi'n benodol y gall y dioddefwr apelio yn erbyn penderfyniad y llys ynghylch DAPO a wnaed o wirfodd y llys ei hun o dan [Adran 31](#) oherwydd bod hon yn hawl gyffredinol i apelio sydd eisoes ar gael i'r dioddefwr yn rhinwedd deddfwriaeth arall, fel yr un a restrir yn [Adran 46\(9\)](#).

- 12.3 Dim ond i apelio yn erbyn penderfyniad y llys mewn perthynas â DAPO y gwnaethant gais gwreiddiol amdano y caiff prif swyddogion y BTP a'r MDP wneud cais.
- 12.4 Rhaid gwneud yr apêl i'r llys priodol, sy'n amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau y gwnaed y DAPO neu'r penderfyniad perthnasol mewn perthynas â'r DAPO:
- a) Lle gwnaed y DAPO, neu'r penderfyniad mewn perthynas â'r DAPO, gan lys ynadon, rhaid gwneud yr apêl i Lys y Goron ([Adran 46\(7\)\(a\)](#));
 - b) Lle gwnaed y DAPO, neu'r penderfyniad mewn perthynas â'r DAPO, gan Lys y Goron, rhaid gwneud yr apêl i'r Llys Apêl ([Adran \(46\)\(7\)\(b\)](#));
 - c) Bydd apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan lysoedd eraill (y llys teulu, y llys sirol, neu'r Uchel Lys) yn cael eu clywed yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol, a nodir yn [Adran 46\(9\)](#).
- 12.5 Cyn penderfynu ar apêl mewn perthynas â DAPO, rhaid i'r llys glywed gan brif swyddog yr heddlu, os ydyn nhw'n dymuno cael eu clywed:
- a) y person a wnaeth gais am y DAPO;
 - b) o ardal yr heddlu lle mae'r tramgwyddwr yn byw, neu lle y credir bod y tramgwyddwr yn byw neu'n bwriadu dod iddi, hyd yn oed os na wnaeth gais yn wreiddiol am y DAPO.
- 12.6 Ar gyfer y peilot, lle mae'n rhaid i lys uwch glywed yr apêl ac nad oes un ar gael yn yr ardal dreialu, gall y llys perthnasol mewn ardal nad yw'n ardal dreialu glywed yr apêl.
- 12.7 Mae'r darpariaethau hyn – yn benodol [Adrannau 46\(5\)](#) a [47\(1\)](#) – yn golygu, pan fyddan nhw'n dymuno gwneud hynny, bod yr heddlu'n dal i allu apelio yn erbyn penderfyniad i amrywio neu ollwng DAPO, neu gael eu clywed mewn perthynas ag apêl yn ymwneud â DAPO, hyd yn oed pan na wnaethon nhw gais yn wreiddiol am y DAPO hwnnw. Mae hyn yn caniatáu i'r heddlu gyflwyno tystiolaeth neu wybodaeth berthnasol a allai fod ganddyn nhw ynghylch lefel y risg a berir i'r dioddefwr gan y tramgwyddwr neu natur ei ymddygiad camdriniol, hyd yn oed pan gafwyd y DAPO gwreiddiol trwy lwybr gwahanol neu os nad yw'r heddlu wedi bod yn rhan o'r achos o'r blaen.
- 12.8 Nid yw'r darpariaethau hyn yn atal y llys rhag clywed gan bartïon eraill sy'n dymuno cael eu clywed mewn perthynas â'r apêl, fel y person sy'n cael ei warchod.
- 12.9 [Mae adran 47\(4\)](#) yn nodi'r hyn a all ddigwydd o ganlyniad i apêl lwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys y llys yn cadarnhau, amrywio neu ddiddymu unrhyw ran o'r penderfyniad yr apeliwyd yn ei erbyn, neu gyfeirio'r mater yn ôl i'r llys isaf a'i gyfarwyddo i ailystyried ei benderfyniad.

Atodiad A: Ffyrdd eraill o gael Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)

A1 Gorchmynion Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig (DAPOau) a wnaed ar gais

1. Gall y bobl ganlynol wneud cais am DAPO ([Adran 28](#)):

- a) y dioddefwr (y mae'n rhaid iddo fod yn 16 oed neu'n hŷn);
- b) prif swyddog yr heddlu ar gyfer yr heddlu a roddodd DAPN, neu os nad oes DAPN wedi cael ei roi, unrhyw un o'r canlynol:
- c) prif swyddog Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig;
- d) Prif Swyddog Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MDP); *Sylwch na fydd Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MDP) yn rhan o'r peilot.*
- e) prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal yr heddlu lle mae'r tramgwyddwr yn byw, neu lle mae'n credu bod y tramgwyddwr yn byw neu'n bwriadu dod iddi; sylwch mai dim ond heddluoedd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen beilot all wneud cais ac ar gyfer y rhaglen beilot, dim ond os yw'r tramgwyddwr yn byw yn yr ardal beilot y gellir gwneud DAPO.
- f) person a bennir mewn rheoliadau²⁰;
- g) unrhyw berson arall sydd â chaniatâd y llys.

2. Mae'r amodau ar gyfer gwneud DAPO a'r gofynion y gellir eu gosod ganddo yr un peth pwy bynnag sy'n gwneud y cais am y DAPO neu pa bynnag lys sy'n ei wneud.

3. Gellir gwneud cais am DAPO yn y ffyrdd canlynol:

<i>Pwy all ymgeisio:</i>	<i>Ble i wneud cais am y DAPO:</i>
Yr heddlu	Llys ynadon

²⁰ Nid yw'r trydydd partiön sydd i'w pennu mewn rheoliadau (a fydd yn gallu gwneud cais am DAPO heb orfod gofyn am ganiatâd y llys yn gyntaf i wneud hynny) wedi cael eu penderfynu eto. Er na fydd y rheoliadau hyn yn cael eu gosod yn ystod y rhaglen beilot, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid perthnasol maes o law i osod y rheoliadau hyn yn barod ar gyfer y cam o gyflawni'r gorchmynion.

Y dioddefwr	Y llys teulu a'r llys sirol (yr olaf yn ystod yr achos perthnasol yn unig) ²¹
Trydydd parti gyda chaniatâd y llys	Y Llys Teulu

4. Gall y llys hefyd wneud DAPO o'i wirfodd ei hun yn ystod achosion troseddol, teulu neu sifil penodol y mae'r dioddefwr a'r tramgwyddwr ill dau yn bartïon iddyn nhw fel y manylir arnynt yn A2 isod.
5. Mae nifer o resymau pam y gall dioddefwr ddewis gwneud cais ei hun am DAPO yn hytrach na mynd at yr heddlu neu berson neu sefydliad arall. Er enghraifft, efallai na fyddan nhw am gynnwys yr heddlu yn eu hachos, neu efallai y byddan nhw am fod â rheolaeth dros sicrhau eu diogelwch eu hunain.
6. Gallai pobl eraill a allai fod am ofyn am ganiatâd y llys i wneud cais am DAPO gynnwys cynrychiolydd o'r awdurdod lleol lle mae'r dioddefwr yn byw, neu sefydliad cam-drin domestig arbenigol sy'n gweithio gyda'r dioddefwr. Yn ystod y cynllun peilot, dim ond y rhai sy'n cael caniatâd y llys i wneud cais fydd yn gallu gwneud cais. Byddwn yn monitro pa bartïon sy'n dod â chais i'r llys a bydd hyn yn hysbysu pwy a bennir mewn deddfwriaeth ar gyfer cyflwyno cenedlaethol.
7. Mae Adran 10 o'r canllawiau hyn yn manylu ar sut y dylai'r heddlu fonitro cydymffurfiaeth â DAPO. Mae adran 10 yn gymwys ni waeth beth yw'r llwybr ymgeisio i gael y DAPO, sy'n golygu bod yn rhaid i'r heddlu ymateb i dorri pob DAPO, p'un a ydynt wedi gwneud cais ai peidio.

A2 DAPOau wedi'u gwneud o wirfodd y llys

1. [Mae Adran 31](#) o'r Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn datgan gall y llysoedd canlynol wneud DAPO o'u gwirfodd eu hunain yn ystod achosion eraill. Mae hyn yn cynnwys:
 - a) y llys teulu, yn ystod achosion teuluol y mae'r dioddefwr a'r tramgwyddwr ill dau yn bartïon iddo;
 - b) Llys y Goron, lle mae wedi caniatáu apêl y tramgwyddwr yn erbyn euogfarn am drosedd;


²¹. [Rheoliadau Gorchmynion Diogelu Cam-drin Domestig \(Llys Sirol: Achosion Perthnasol\) 2024 \(legislation.gov.uk\)](#)

- c) Y llys sirol, yn ystod achosion perthnasol²² y mae'r dioddefwr a'r tramgwyddwr ill dau yn bartïon iddo.
- d) Mewn achosion lle mae'r tramgwyddwr wedi'i euogfarnu neu ei gael yn ddieuog o drosedd, y llys sy'n delio â'r tramgwyddwr am y drosedd honno (ac eithrio'r Llys Apêl);

2. Yn yr un modd â DAPOau a wneir ar gais, mae'r amodau ar gyfer gwneud DAPO a'r gofynion y gellir eu gosod ganddo yr un fath, ni waeth pa llys sy'n gwneud DAPO o'i wirfodd ei hun.
3. Disgwylir gall y llysoedd ddefnyddio'r pŵer i wneud DAPO o'u gwirfodd lle, yn ystod achos arall, daw'r llys yn ymwybodol o'r angen i amddiffyn person rhag cam-drin domestig - er enghraifft, lle honnir bod cam-drin domestig neu ei fod yn cael ei ddatgelu mewn tystiolaeth. Does dim rhaid i'r trafodion hyn fod yn gysylltiedig â'r cam-drin domestig.

LLWYBRAU AMGEN I ORCHYMYN AMDDIFFYN RHAG CAM-DRIN DOMESTIG (DAPO)

Does dim DAPN wedi'i wneud ond mae'n angenrheidiol ac yn gymesur gwneud DAPO i atal tramgwyddwr rhag bod yn gamdrinoli i berson 16 oed neu drosodd y mae ganddo gysylltiad ag ef.




Mae torri DAPO yn drosedd (ym mha ffordd bynnag y'i cafwyd) – mewn achosion troseddol, gall y llys wneud DAPO o'i wirfodd neu drwy gais

¹ Gall person a bennir mewn rheoliadau wneud cais ac unrhyw berson arall sydd â chaniatâd y llys, ond nodwch, ar gyfer y rhaglen bellot, nad ydym yn pennu unrhyw bersonau mewn rheoliadau a dim ond y sawl sydd â chaniatâd gan y llys all wneud cais.

² Ar gyfer achosion llys teulu a sirol, gall dioddefwr wneud cais o fewn achosion parhaus, a gall y llysoedd wneud DAPO mewn achos o'r fath o'u cynnig.

²² [Rheoliadau Gorchmynion Diogelu Cam-drin Domestig \(Llys Sirol: Achosion Perthnasol\) 2024 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk).

Atodiad B: Map Proses



Cais am DAPO:

Amodau - Mae P wedi bod yn gamdriniol neu'n bygwth bod yn gamdriniol tuag at V a bod DAPO yn angenrheidiol ac yn gymesur i amddiffyn V.

Ystyriwch - Lles unrhyw un dan 18, barn pawb sy'n gysylltiedig (does dim angen cydsyniad V), sylwadau gan P, cofnodion perthnasol yr heddlu i sefydlu a yw P eisoes yn destun gorchymyn llys neu waharddeb arall. Ymgysylltu ag asiantaethau eraill ynghylch amodau, gan gynnwys gwasanaethau DA. Ystyried nodweddion gwarchodedig.

Cais - Ystyried pa ofynion fyddai'r rhai mwyaf effeithiol o ran diogelu'r person i gael ei amddiffyn a mynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol y P a theilwra ei gais yn unol â hynny.

- Nodwch hyd y gorchymyn (dim isafswm neu uchafswm)
- Nodwch hyd yr amodau

Gallai enghreifftiau o amodau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- Gwahardd cyswllt â V
- Gwaharddiad rhag dod o fewn pellter penodol i annedd (e.e. cartref V, man gwaith, ysgol y plentyn ac ati)
- Gwahardd o'r annedd
- Gofynion cadarnhaol (rhaglen tramgwyddwr, rhaglen camddefnyddio sylweddau, rhaglen iechyd meddwl). Os ystyrir gofynion cadarnhaol, ymgysylltu â sefydliad 'brysennu' i'w asesu er mwyn ffurfio rhan o'r cais
- Monitro electronig (parth cyrff neu allgáu)

DAPO wedi'i ganiatau:

- Heddlu i gyflwyno DAPO ar P.
- Cysylltu â V i roi gwybod iddo am y penderfyniad.
- Rhoi gwybod i V am waharddiadau a hyd y DAPO a chamau gweithredu i'w cymryd os torrir y gorchymyn.
- Adolygu Asesiad Risg i V ac i bobl eraill.
- Rhoi gwybod i adrannau ac asiantaethau perthnasol bod DAPO wedi'i wneud.

DAPO wedi'i wrthod:

- Cysylltwch â'r person sydd wedi'i gysylltu'n bersonol i roi gwybod iddo am y penderfyniad.
- Ystyriwch gyfeirio at wasanaeth DA.
- Diweddardwch asesiad risg DASH/DARA – sicrhewch fod mesurau diogelwch yn ddigonol.
- Rhewch wybod i adrannau ac asiantaethau perthnasol
- Ymgysylltwch ag asiantaethau eraill, atgyfeirio posibl i MARAC a chynllunio diogelwch.
- Tynnwch y marciwr DAPN o'r PNC.

Ymgysylltiad amlasiantaeth:

- Bydd IDVA yn rhoi cefnogaeth ac arweiniad annibynnol yn uniongyrchol i'r dioddefwr.
- Efallai bydd angen gweithredu brys cyn MARAC yn dibynnu ar amserlenni.
- Asiantaethau MARAC i nodi a rhoi mesurau / gweithgarwch diogelwch ar waith i gefnogi a diogelu V ac unrhyw blant.

Torri DAPO:

Mae angen gweithredu AR FRYS

- Cysylltwch â P ac ymchwilio i'r toriad
- Gall y swyddog arestio P
- Gall y llys ei gadw yn y ddalfa neu ei roi ar fechnïaeth
- Hysbysu V o dorri'r rheolau
- Rhoi gwybod i adrannau ac asiantaethau perthnasol am dorri'r rheolau
- Casglu tystiolaeth / paratoi papurau llys
- Siarad â'r CPS am benderfyniad i gyhuddo

DAPO yn gorffen:

- Parhau i ganolbwyntio ar y dioddefwr, gan ystyried anghenion, gofynion a diogelwch V
- Ystyried a oes angen cais i ymestyn y DAPO
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i hadalw ar systemau PND/heddlu lleol

Atodiad C: Amodau Mechnïaeth

1. Mae'n bwysig nodi y gellir defnyddio amodau mechnïaeth a mesurau amddiffynnol, fel y DAPN a DAPO, ar yr un pryd i greu mwy o amddiffyniad i'r dioddefwr, ar yr amod nad yw amodau'r DAPN / DAPO a'r amodau mechnïaeth yn gwrthdaro. Felly, dylid ystyried DAPN / DAPO bob amser hyd yn oed pan fydd amodau mechnïaeth eisoes ar waith. Mae'r cynsail hwn hefyd yn berthnasol mewn achosion lle mae'r tramgwyddwr yn destun gorchymyn amddiffynnol arall, gellir gwneud DAPN / DAPO o hyd ar yr amod nad yw'r amodau'n gwrthdaro. Mae cyhoeddi DAPN, gwneud cais am DAPO, a gosod mechnïaeth gydag amodau yn ymyraethau gwahanol, gyda meini prawf gwahanol, amserlenni gwahanol a sancsiynau gwahanol ar gyfer eu torri. Disgwylir i'r heddlu ystyried yr ymyraethau gwahanol hyn, yn seiliedig ar ffeithiau penodol fesul pob achos unigol, er mwyn sicrhau bod y dioddefwr yn cael ei amddiffyn briodol.
2. Am ragor o arweiniad ar y defnydd a wneir o fechnïaeth cyn cyhuddo a rhyddhau dan ymchwiliad (RUI) mewn achosion o gam-drin domestig, dylai'r heddlu gyfeirio at y canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona.²³

²³ [Canllawiau statudol mechnïaeth ymlaen llaw \(hygyrch\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Atodiad D: Cefnogaeth ar gael i ddiodefwyr

1. **Llinell gymorth Rhadffôn 24 awr o Gam-drin Domestig Cenedlaethol, a redir gan Refuge** – 0808 2000 247
2. **Age UK** – sefydliad sy'n cefnogi pobl hŷn a diodefwyr cam-drin pobl hŷn. Gellir cysylltu â nhw ar 0800 678 1602. Maen nhw ar agor rhwng 8am a 7pm, 365 diwrnod y flwyddyn.
3. **Broken Rites** – grŵp sy'n cynnig cefnogaeth a gwybodaeth ar y cyd i bobl sydd wedi gwahanu ac ysgaru, a phartneriaid clerigwyr, gweinidogion a Swyddogion Byddin yr Eglwys. E-bostiwrch enquiries@brokenrites.org os gwelwch yn dda
4. **Clinks** – sefydliad sy'n cefnogi'r sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl yn y system cyfiawnder troseddol a'u teuluoedd. Mae gan Clinks gyfeiriadur o wasanaethau, er nad yw'n gynhwysfawr, ac mae ganddynt brofiad o gefnogi menywod sydd wedi diodef cam-drin domestig. Eu rhif ffôn yw 020 7383 0966.
5. **Dogs Trust Freedom Project** – gwasanaeth maethu cŵn arbenigol i ddiodefwyr sy'n ffoi o gam-drin domestig. Eu rhif cyswllt yw 020 7837 0006 (Llun-Gwener 9am-5pm).
6. **FLAWS** – (Finding Legal Options for Women Survivors) – Gwasanaeth a ddarperir gan RCJ Advice sy'n darparu cyngor cyfreithiol cyfrinachol am ddim i fenywod sydd wedi goroesi wrth geisio gorchymyn amddiffynol gan y llysoedd. Gellir cysylltu â nhw ar 0203 745 7707, drwy e-bost yn flows@rjadvice.org.uk neu drwy eu gwefan ar <https://www.flows.org.uk/>
7. **Hestia Respond to Abuse Advice Line** – llinell gyngor arbenigol sy'n cefnogi cyflogwyr i helpu staff sy'n profi cam-drin domestig ar 0203 879 3695 neu drwy e-bost advice.line.EB@hestia.org 9am-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.
8. **Hourglass** – sefydliad arbenigol sy'n ceisio rhoi terfyn ar niwed, cam-drin a chamfanteisio ar bobl hŷn yn y DU. Gellir cael mynediad i'w llinell gymorth dros y ffôn ar 0808 808 8141, drwy neges destun ar 07860 052906, neu drwy e-bostio helpline@wearehourglass.org
9. **Galop** – sefydliad arbenigol ac elusen gwrth-drais LHDT sy'n cynnig cymorth i ddiodefwyr LHDT. Eu Llinell Gymorth cam-drin domestig yw 0800 999 5428. Eu cyfeiriad e-bost yw: help@galop.org.uk.
10. **Cymorth i Fenywod Iddewig** – sefydliad arbenigol sy'n cefnogi menywod a phlant Iddewig sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig. Eu llinell gymorth yw 0808 801

0500 ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 9.30am a 9.30pm (ac eithrio gwyliau Iddewig a gwyliau banc).

11. **Llinell gymorth Karma Nirvana HBA** – sefydliad arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr camdriniaeth ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod. Y llinell gymorth yw 0800 599 9247 ac mae ar agor 9am – 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
12. **ManKind Initiative** – sefydliad arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig gwrywaidd a'u plant. Ffoniwch 01823 334244 i siarad â nhw'n gyfrinachol, ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10am a 4pm.
13. **Llinell Gyngor Dynion** – 0808 801 0327 Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 10am-5pm neu e-bostiwrch info@mensadvice.org.uk
14. **Rhwydwaith Menywod Mwslimaidd** – sefydliad arbenigol sy'n cefnogi menywod a merched Mwslimaidd. Eu llinell gymorth yw 0800 999 5786 neu e-bostiwrch: info@mwnhelpline.co.uk
15. **Gwefan Llinell Gymorth Genedlaethol Cam-drin Domestig** – Mae sgwrs fyw ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener 3pm – 10pm www.nationaldahelpline.org.uk.
16. **Llinell gymorth Stelcio Genedlaethol** – 0808 802 0300 9.30am i 8pm ar ddydd Llun a dydd Mercher, a rhwng 9:30am a 4pm ar ddydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener.
17. **NSPCC** – Prif elusen plant y DU sy'n gweithio i atal camdriniaeth, ailadeiladu bywydau plant a chefnogi teuluoedd. Eu rhif cyswllt yw 0808 800 5000, 10am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu e-bostiwrch help@nspcc.org.uk.
18. **Llinell Gymorth NPCC FGM** – 0800 028 3550 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 9am a 6pm ddydd Sadwrn a dydd Sul, neu e-bostiwrch fgm.help@nspcc.org.uk.
19. **Paladin** – sefydliad sy'n rhoi cefnogaeth i ddioddefwyr stelcio. Cysylltwch â ni ar 020 3866 4107.
20. **Refuge** – Sefydliad sy'n rhoi cefnogaeth i bob dioddefwr cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched. Eu llinell Gymorth Genedlaethol Cam-drin Domestig yw 0808 2000 247, sydd ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.
21. **Respect** – sefydliad sy'n gweithio gyda dioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig a chyflawnwyr cam-drin domestig ar 0808 801 0327 neu ewch i mensadvice.org.uk.
22. **Llinell gymorth Porn Dial** – ar agor rhwng 10am a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. 0345 600 0459 neu help@revengepornhelpline.org.uk.
23. **Gwasanaeth Cam-drin Domestig Iechyd Arwyddo** – gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol i gefnogi iechyd a lles pobl Fyddar. Anfonwch neges destun at 07800 003 421, neu e-bostiwrch da@signhealth.org.uk.

24. **Cymorth i Fenywod Solace** – sefydliad sy'n cefnogi pob dioddefwr trais yn erbyn menywod a merched. Galwch 0808 802 5565.
25. **Southall Black Sisters** – Sefydliad sy'n rhoi cefnogaeth i ddioddefwyr lleiafrifoedd ethnig a menywod mudol. Eu Llinell Gymorth yw 020 8571 9595, ar agor rhwng 9:00am a 5:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu e-bostiwrch info@southallblacksisters.co.uk.
26. **Stay Safe East** – sefydliad arbenigol sy'n rhoi cefnogaeth i ddioddefwyr anabl a Byddar cam-drin domestig. Ffôn neu SMS/Testun: 07865 340 122, neu e-bostiwrch enquiries@staysafe-east.org.
27. **Goroesi Cam-drin Economaidd** – sefydliad arbenigol sy'n ymroddedig i gefnogi dioddefwyr cam-drin economaidd. E-bostiwrch info@survivingeconomicabuse.org.
28. **Uned Priodas dan Orfod y DU** – 020 7008 0151, neu e-bostiwrch fmufco.gov.uk.
29. **Cymorth i Ddioddefwyr** - gwasanaeth arbenigol sy'n helpu unrhyw un y mae unrhyw fath o droseddau yn effeithio arnyn nhw, nid yn unig y rhai sy'n ei brofi'n uniongyrchol, ond hefyd eu ffrindiau, teulu ac unrhyw bobl eraill sy'n gysylltiedig. 0808 168 9111, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae Sgwrs Fyw ar gael ar eu gwefan, www.victimsupport.org.uk.
30. **Cymorth i Fenywod** – sefydliad sy'n cefnogi menywod sydd wedi eu heffeithio gan gam-drin domestig. Mae Sgwrs Fyw ar gael ar eu gwefan, www.womensaid.org.uk neu e-bostiwrch helpline@womensaid.org.uk
31. **Rights of Women** – elusen sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth gyfrinachol am ddim i fenywod ar y gyfraith yng Nghymru a Lloegr gyda ffocws penodol ar Drais yn erbyn Menywod a Merched.
 - a. Llinell gyngor cyfraith teulu cenedlaethol: 020 7251 6577, ar agor rhwng 7:00pm-9:00pm Dydd Mawrth i Ddydd Iau a 12:00pm-2:00pm Dydd Gwener
 - b. Llinell gyngor cyfraith teulu Llundain: 020 7608 1137, ar agor rhwng 10:00am-12:00pm/2:00pm-4:00pm Dydd Llun a Dydd Iau, a 2:00pm-4:00pm Dydd Mawrth i Ddydd Mercher
 - c. Llinell gyngor cyfraith droseddol: 020 7251 8887, ar agor rhwng 10:00am-12:00pm Dydd Mawrth a 7:00pm-9:00pm Dydd Iau
 - d. Llinell gyngor cyfraith mewnfudo a lloches: 020 7490 7689, ar agor rhwng 10:00am-12:00pm/2:00pm-4:00pm Dydd Llun a Dydd Iau
32. **Cymorth Cyfreithiol** - gall cymorth cyfreithiol eich helpu i gael cyngor, cyfryngu neu gynrychiolaeth gyfreithiol mewn llys neu dribiwnlys os ydych yn gymwys ac yn methu fforddio talu amdano. Ceir mwy o wybodaeth yma [Cymorth cyfreithiol: Trosolwg - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Sefydliadau penodol i Gymru

33. **Llinell gymorth Byw Heb Ofn** – 0808 801 0800 ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Gallwch hefyd anfon neges destun at 07860 077 333.
34. **Llinell gymorth Dyn Cymru** – sefydliad sy'n cefnogi dioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig. 0808 801 0321 neu e-bostiwrch support@dynwales.org (cymorth i ddioddefwyr gwrywaidd).
35. **Cymorth i Ferched Cymru** - sefydliad sy'n cefnogi menywod Cymru sydd wedi eu heffeithio gan gam-drin domestig. Mae gwybodaeth a chefnogaeth ar gael ar eu gwefan: www.welshwomensaid.org.uk
36. **BAWSO** – Sefydliad arbenigol sy'n ymroddedig i gefnogi cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Gellir cysylltu â'u llinell gymorth ledled Cymru ar 0800 731 8147 ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Atodiad E: Geirfa termau allweddol

APP	Cyfarwyddyd Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona
CPS	Gwasanaeth Erlyn y Goron
DAPN	Hysbysiad Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig
DAPO	Gorchymyn Amddiffyn Rhag Cam-drin Domestig
Cam-drin Domestig	Mae Adran 1 Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn darparu y diffiniad canlynol o gam-drin domestig: (2) Mae ymddygiad person ("A") tuag at berson arall ("B") yn "gam-drin domestig" os— (a) yw A a B yn 16 oed yr un neu'n hŷn ac wedi'u cysylltu'n bersonol â'i gilydd, a (b) bod yr ymddygiad yn gamdriniol. (3) Mae ymddygiad yn "gamdriniol" os yw'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol— (a) camdriniaeth gorfforol neu rywiol; (b) ymddygiad treisgar neu fygythiol; (c) ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi; (d) cam-drin economaidd (gweler is-adran (4)); (e) cam-drin seicolegol, emosiynol neu arall; ac nid oes gwahaniaeth a yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu gwrs o ymddygiad. (4) Ystyr "cam-drin economaidd" yw unrhyw ymddygiad sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar allu B i— (a) caffael, defnyddio neu gynnal arian neu eiddo arall, neu (b) cael nwyddau neu wasanaethau. (5) At ddibenion y Ddeddf hon, gall ymddygiad A fod yn ymddygiad "tuag at" B er gwaethaf y ffaith ei fod yn cynnwys ymddygiad a gyfeirir at berson arall (er enghraifft, plentyn B). (6) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at fod yn gamdriniol tuag at berson arall i'w darllen yn unol â'r adran hon.

	Darperir enghreifftiau manwl o wahanol fathau o gam-drin domestig yn y canllawiau statudol cam-drin domestig ²⁴
Cyfeiriad cartref	Mae Adran 54 Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn darparu'r diffiniad canlynol o "gyfeiriad cartref": a) unig gyfeiriad neu brif breswylfa'r person yn y Deyrnas Unedig, neu b) os nad oes gan y person breswylfa o'r fath – i) cyfeiriad neu leoliad man yn y Deyrnas Unedig lle gellir dod o hyd i'r person yn rheolaidd; ii) os oes mwy nag un lle o'r fath, cyfeiriad neu leoliad pa un bynnag o'r lleoedd hynny y mae'r person yn ei ddewis.
IDVA	Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (Multi-Agency Public Protection Arrangements)
MARAC	Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth (Multi-Agency Risk Assessment Conference)
MATAC	Cyfarfod Tasgio a Chydlynu Aml-Asiantaeth (Multi-Agency Tasking And Co-ordination meeting)
PACE	Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
Tramgwyddwr	Y person sy'n destun DAPN neu DAPN y cyfeirir ato yn Rhan 3 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 fel "P". Y person sydd wedi cam-drin neu yr honnir iddo fod yn gamdriniol tuag at berson 16 oed neu hŷn y mae ganddo gysylltiad personol ag ef. I nodi, defnyddir y term 'tramgwyddwr yn lle 'diffynnydd' drwy gydol y canllawiau hyn i adlewyrchu'r term 'P' a ddefnyddir yn Neddf Cam-drin Domestig 2021.
Wedi'i gysylltu'n bersonol	Mae Adran 2 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn cynnig y diffiniad canlynol o "gysylltiad personol": (1) At ddibenion y Ddeddf hon, mae dau berson "wedi'u cysylltu'n bersonol" â'i gilydd os yw unrhyw un o'r canlynol yn gymwys— (a) eu bod, neu wedi bod, yn briod â'i gilydd;

²⁴ [Deddf Cam-drin Domestig 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

	(b) eu bod, neu wedi bod, yn bartneriaid sifil i'w gilydd; (c) eu bod wedi cytuno i briodi ei gilydd (p'un a yw'r cytundeb wedi ei derfynu ai peidio); (d) eu bod wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil (p'un a yw'r cytundeb wedi'i derfynu ai peidio); (e) eu bod, neu wedi bod, mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd; (f) bod gan bob un, neu pan fu amser pan oedd gan bob un, berthynas rhiant mewn perthynas â'r un plentyn (gweler is-adran (2)); (g) eu bod yn berthnasau. (2) At ddibenion is-adran (1)(f) mae gan berson berthynas rhiant mewn perthynas â phlentyn os— (a) os yw'r person yn rhiant i'r plentyn, neu (b) Bod gan y person gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. (3) Yn yr adran hon— ystyr "plentyn" ("child") yw person o dan 18 oed; mae i "cytundeb partneriaeth sifil" yr ystyr a roddir i gan adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004; mae i "cyfrifoldeb rhiant" yr un ystyr ag a roddir yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989; Mae i "perthynas" yr ystyr a roddir yn adran 63(1) o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996.
PNC	Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu
Y Ddeddf Cam-drin Domestig 2021	Deddf Cam-drin Domestig 2021
Dioddefwr	Drwy gydol y canllawiau rydym yn cyfeirio at y dioddefwr gan DAPN neu DAPO. Defnyddiwn y term hwn hefyd i gyfeirio at y sawl sy'n profi neu sydd wedi profi cam-drin domestig. Dylid nodi nad yw pawb sydd wedi profi cam-drin domestig neu sy'n profi cam-drin domestig yn dewis disgrifio'u hunain fel "dioddefwr" ac efallai y byddai'n well ganddynt derm arall, fel "goroeswr."

